



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4
Legislation Committee No. 4**

**Dydd Mercher, 5 Mai 2010
Wednesday, 5 May 2010**

Cynnwys
Contents

- 4 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)—Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth 5
Proposed Waste (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session 5
- 49 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Pwyllgor.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Committee. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (yn dirprwyo ar ran Kirsty Williams)
	Welsh Liberal Democrats (substitute for Kirsty Williams)
Christine Chapman	Llafur
	Labour
Brian Gibbons	Llafur
	Labour
Bethan Jenkins	Plaid Cymru
	The Party of Wales
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr Cymreig
	Welsh Conservatives
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor)
	Welsh Liberal Democrats (Committee Chair)

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Jane Davidson	Aelod Cynulliad, Llafur, (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai)
	Assembly Member, Labour (the Minister for Environment, Sustainability and Housing)
Prys Davies	Rheolwr Deddfwriaeth, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
	Legislation Manager, Department of Environment, Sustainability and Housing
Matthew Dunstan	Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
	Legal Services Department
Nia James	Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
	Legal Services Department
Andy Rees	Pennaeth y Polisi Gwastraff
	Head of Waste Policy

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Sarah Beasley	Clerc
	Clerk
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol
	Legal Adviser
Sarah Sargent	Dirprwy Glerc
	Deputy Clerk
Nia Seaton	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
	Members' Research Service

Dechreuodd y cyfarfod am 9.55 a.m.
The meeting began at 9.55 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Jenny Randerson:** Welcome to today's meeting of Legislation Committee No. 4. We have received apologies from Kirsty Williams—Eleanor Burnham is substituting. I will start with the usual housekeeping points. In the event of a fire alarm, please leave the room by the marked exits and follow instructions from the ushers and staff. All mobile phones, pagers and BlackBerrys should be switched off because they interfere with the broadcasting equipment. The National Assembly operates through the Welsh and English languages, and headphones are provided for instantaneous translation. You can get interpretation on channel 1, and amplification, if needed, on channel 0.

Jenny Randerson: Croeso i gyfarfod heddiw o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4. Yr ydym wedi derbyn ymddiheuriadau gan Kirsty Williams—mae Eleanor Burnham yn cymryd ei lle. Yr wyf am ddechrau gyda'r pwyntiau arferol ar gadw tŷ. Os bydd tân, gadewch yr ystafell drwy'r allanfeydd sydd wedi'u nodi a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Cofiwch ddiffodd unrhyw ffonau symudol, galwyr a BlackBerrys gan eu bod yn amharu ar y cyfarpar darlledu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu yn y Gymraeg a'r Saesneg, a darperir clustffonau ar gyfer cyfieithiad ar y pryd. Mae'r cyfieithu ar sianel 1, a gellir chwyddleisio'r sain, os oes angen, ar sianel 0.

9.56 a.m.

Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)—Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth 5 Proposed Waste (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session 5

[2] **Jenny Randerson:** The purpose of today's meeting is to take evidence from the Minister for Environment, Sustainability and Housing, who is the Member in charge of the proposed Measure. We welcome Jane Davidson and her team. For the purposes of the record, the team includes: Prys Davies, from the Department of Environment, Sustainability and Housing; Andy Rees, the head of waste policy; and Nia James and Matthew Dunstan from the Welsh Assembly Government's Legal Services department. We have a tight schedule and a large number of questions this morning, because this is a long and complex proposed Measure. We will therefore start with questions, and I will ask the first.

Jenny Randerson: Diben cyfarfod heddiw yw cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig. Yr ydym yn croesawu Jane Davidson a'i thîm. At ddibenion y cyfnod, mae'r tîm yn cynnwys: Prys Davies, o Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; Andy Rees, y pennaeth polisi gwastraff; a Nia James a Matthew Dunstan o adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad. Mae gennym amserlen dynn a llawer iawn o gwestiynau y bore yma, gan fod hwn yn Fesur arfaethedig hir a chymhleth. Byddwn yn dechrau felly gyda chwestiynau, ac fe wnaif i ofyn yr un cyntaf.

[3] Minister, have you considered publishing a delivery plan for the main pieces of legislation that you intend to introduce under the Welsh Government's waste policy?

Weinidog, a ydych wedi ystyried cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer y prif ddarnau o ddeddfwriaeth yr ydych yn bwriadu eu cyflwyno o dan bolisi gwastraff Llywodraeth y Cynulliad?

[4] **The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane**

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):

Davidson): The waste agenda is being taken forward in 'Towards Zero Waste', which is our overarching waste strategy document for Wales. Furthermore, a delivery plan will be prepared for each of the economic sectors, and will be fully consulted upon. The first four sector plans are the municipal sector plan; the construction and demolition sector plan; a collection, infrastructure and markets sector plan; and a retail sector plan.

Mae'r agenda ar wastraff yn cael ei datblygu yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', sef ein dogfen strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru. Ymhellach, bydd cynllun cyflawni yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r sectorau economaidd, a byddwn yn ymgynghori'n llawn arnynt. Y pedwar cynllun sector yw'r cynllun sector trefol; y cynllun sector adeiladu a dymchwel; cynllun sector casglu, seilwaith a marchnadoedd; a chynllun sector manwerthu.

[5] **Jenny Randerson:** A lot of the evidence to us has said that it is difficult for stakeholders to comment in detail on the legislation and the policy proposals included in it, because so much of the detail is a matter for huge future regulations. Would it be more appropriate for greater detail to be provided on the face of the proposed Measure?

Jenny Randerson: Mae llawer o'r dystiolaeth a gawsom wedi dweud ei bod yn anodd i randdeiliaid roi sylwadau manwl ar y ddeddfwriaeth a'r cynigion polisi, gan fod cymaint o'r manylion yn destun rheoliadau enfawr yn y dyfodol. A fyddai'n fwy priodol darparu mwy o fanylion ar wyneb y Mesur arfaethedig?

[6] **Jane Davidson:** There is always an issue around the appropriate balance to be struck between the powers on the face of a Measure and what is left to regulation. The explanatory memorandum sets out why this proposed Measure contains enabling powers for Welsh Ministers to make subordinate legislation, which is likely to be subject to periodic review or amendment. That is the case in relation to the provision on some of the waste targets. It would be cumbersome, and it would take up an enormous amount of time for the National Assembly for Wales, if these amendments had to be done by Measure. In other cases, the power to make subordinate legislation will enable Welsh Ministers to introduce the detail of a Measure to cover developments that are unknown at this stage, such as in relation to single-use carrier bags or landfill. Where the detail is left to regulations, we propose that we use the most suitable subordinate legislative procedure, depending on the nature of the provision in question. So, details of each of the powers to make subordinate legislation are set out in the explanatory memorandum.

Jane Davidson: Mae trafodaethau byth a beunydd ar sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng y pwerau ar wyneb Mesur a'r hyn a adewir i reoliadau. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi pam mae'r Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, sy'n debygol o fod yn destun adolygu cyfnodol neu welliant. Mae hynny'n wir o ran y ddarpariaeth ar rai o'r targedau gwastraff. Byddai'n feichus, a byddai'n cymryd llawer iawn o amser i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, pe bai'r gwelliannau hyn yn gorfod cael eu gwneud drwy Fesur. Mewn achosion eraill, bydd y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno manylion Mesur i gynnwys datblygiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd, er enghraifft, ynghylch bagiau siopa untro neu dirlenwi. Pan mae'r manylion yn cael eu gadael i reoliadau, yr ydym yn cynnig ein bod yn defnyddio'r weithdrefn is-ddeddfwriaeth fwyaf addas, yn dibynnu ar natur y ddarpariaeth dan sylw. Felly, nodir manylion pob pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn y memorandwm esboniadol.

10.00 a.m.

[7] **Jenny Randerson:** Turning to the section on single-use carrier bags, this proposed Measure is obviously not the main vehicle for the delivery of your policy. Therefore, the explanatory memorandum

Jenny Randerson: Gan droi at yr adran ar fapiau siopa untro, mae'n amlwg nad y Mesur arfaethedig hwn yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni eich polisi. Felly, nid yw'r memorandwm esboniadol yn darparu

does not provide cost estimates for the delivery of that policy as a whole. Is that information available, and if so, are you prepared to publish it?

[8] **Jane Davidson:** I will publish that on 4 June, because that is the day on which we are publishing the regulatory impact assessment and the draft regulations for the charge on single-use carrier bags. Obviously, the regulatory impact assessment will look at the costs and benefits of the charge.

[9] **Jenny Randerson:** That is very helpful. When will the consultation close, and when do you expect to publish the results?

[10] **Jane Davidson:** The consultation will close on 2 August, and we anticipate that the results of the consultation will be published in September.

[11] **Brian Gibbons:** The Confederation of British Industry and others highlighted this point, so, just to be clear, on 4 June, it will not just be the regulatory impact assessment of the narrow proposed Measure that will be published, but the full regulatory impact assessment of the whole range of activities under this proposed Measure and the other legislation, and that will be available as part of the consultation and for scrutiny.

[12] **Jane Davison:** My understanding is that the regulatory impact assessment has been done on the regulations that are being published on 4 June, because the assessment is in relation to the legislation that is being published for consultation. Nia, do you have anything to add to that?

[13] **Ms James:** No, nothing.

[14] **Brian Gibbons:** The point was made by the CBI that the legislation is piecemeal and that there is no end-to-end regulatory impact assessment or cost assessment of the whole process. What you are saying is obviously helpful in that it will provide a regulatory impact assessment of the regulations falling out of this proposed Measure. However, it will not assess the overall impact of waste management

amcangyfrifon cost ar gyfer cyflawni'r polisi yn gyffredinol. A yw'r wybodaeth honno ar gael, ac os ydyw, a ydych yn fodlon ei chyhoeddi?

Jane Davidson: Byddaf yn ei chyhoeddi ar 4 Mehefin, gan mai dyna'r diwrnod yr ydym yn cyhoeddi'r asesiad effaith rheoleiddiol a'r rheoliadau drafft ar gyfer codi tâl am fagiâu siopa untro. Yn amlwg, bydd yr asesiad effaith rheoleiddiol yn edrych ar gostau a manteision codi tâl.

Jenny Randerson: Mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Pryd bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben, a phryd ydych yn disgwyl cyhoeddi'r canlyniadau?

Jane Davidson: Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 2 Awst, ac yr ydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad ym mis Medi.

Brian Gibbons: Tynnwyd sylw at y pwynt hwn gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, felly, i fod yn glir, ar 4 Mehefin, nid asesiad effaith rheoleiddiol y Mesur arfaethedig cul yn unig a fydd yn cael ei chyhoeddi, ond asesiad effaith rheoleiddiol llawn yr ystod lawn o weithgareddau o dan y Mesur arfaethedig hwn a deddfwriaeth arall, a bydd hynny ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad ac ar gyfer craffu.

Jane Davison: Yr wyf ar ddeall bod yr asesiad effaith rheoleiddiol y rheoliadau a fydd yn cael eu cyhoeddi ar 4 Mehefin wedi digwydd, gan fod yr asesiad mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyhoeddi er mwyn ymgynghori yn ei chylch. Nia, a oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu at hynny?

Ms James: Na, dim byd.

Brian Gibbons: Gwnaed y pwynt gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain bod y ddeddfwriaeth yn dameidiog ac nad oes asesiad effaith rheoleiddiol cynhwysfawr neu asesiad o gostau'r broses gyfan. Mae'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn amlwg yn ddefnyddiol o ran y bydd yn darparu asesiad effaith rheoleiddiol o'r rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig hwn. Fodd bynnag, ni fydd yn asesu effaith gyffredinol

legislation as a whole, including UK legislation as well as the competence we have for this proposed Measure and so on. That is something that the CBI was keen to have. Indeed, one or two other people submitted evidence to that effect. You would have thought that that would be useful. Business needs to know what the end-to-end cost of all of this will be rather than the cost of segmented activities within this area of work.

[15] **Jane Davidson:** We obviously look at the issue cumulatively in policy terms, but we are doing exactly the same as what is done with legislation made in other places in that the specific issues around the costs and benefits of the regulations are tested through regulatory impact assessments. We continue to have a very close dialogue with those people who are involved in the context of each of the economic sectors, which is why the sector plans will also be critical. It enables a continuing dialogue in a small country such as Wales in the context of delivery. However, I will ask Prys whether he has anything to add to that.

[16] **Mr Davies:** The only point I would add is that the forthcoming consultation on 4 June will look in detail at the financial implications of what the Government is intending to implement, namely the charge. What you have before you today are proposals that would give Welsh Ministers framework powers that they are not intending to use for the time being because of proposals to focus on the voluntary agreement. So, on what the CBI is looking at with regard to the whole impact on business, it needs to focus on the proposals that will be published on 4 June, because they will drive forward the process of implementing the charge.

[17] **Brian Gibbons:** I am not quite sure that that is the case because, as you know, the legislation in relation to the re-use is separate from this proposed Measure. What it is saying is that the full impact on business is

deddfwriaeth rheoli gwastraff yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys deddfwriaeth y DU yn ogystal â'r cymhwysedd sydd gennym ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn ac ati. Yr oedd hynny'n rhywbeth yr oedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn awyddus i'w chael. Yn wir, cyflwynodd un neu ddau arall dystiolaeth i'r perwyl hwnnw. Byddai rhywun wedi tybio y byddai hynny'n ddefnyddiol. Mae angen i fusnesau gael gwybod beth fydd costau cyfan hyn i gyd yn hytrach na chost rhai gweithgareddau o fewn y maes gwaith hwn.

Jane Davidson: Yr ydym yn amlwg yn edrych ar y mater hwn yn fwyfwy o ran polisi, ond yr ydym yn gwneud yn union yr un fath â'r hyn a wneir gyda deddfwriaeth a wneir mewn manau eraill drwy brofi materion penodol sy'n gysylltiedig â chostau a manteision rheoliadau drwy asesiadau effaith rheoleiddiol. Yr ydym yn parhau i gynnal trafodaethau agos iawn â'r bobl hynny sy'n cyfrannu at gyd-destun pob un o'r sectorau economaidd, a dyna pam y bydd y cynlluniau sector hefyd yn hollbwysig. Mae'n galluogi trafodaethau parhaus mewn gwlad fach fel Cymru yng nghyd-destun cyflawni. Fodd bynnag, yr wyf am ofyn i Prys a oes ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu at hynny.

Mr Davies: Yr unig bwynt y byddwn yn ei ychwanegu yw y bydd yr ymgynghoriad sydd ar droed ar 4 Mehefin yn edrych yn fanwl ar oblygiadau ariannol yr hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei weithredu, sef codi tâl. Yr hyn sydd gennych ger eich bron heddiw yw cynigion a fyddai'n rhoi pwerau fframwaith i Weinidogion Cymru nad ydynt yn bwriadu eu defnyddio am y tro oherwydd cynigion i ganolbwyntio ar y cytundeb gwirfoddol. Felly, o ran beth y mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn edrych arno o ran yr effaith gyfan ar fusnes, mae angen iddo ganolbwyntio ar y cynigion a fydd yn cael eu cyhoeddi ar 4 Mehefin, oherwydd byddant yn gyrru'r broses o weithredu codi tâl ymlaen.

Brian Gibbons: Nid wyf yn hollol sicr bod hynny'n wir oherwydd, fel y gwyddoch, mae'r deddfwriaeth mewn perthynas ag ailddefnyddio ar wahân i'r Mesur arfaethedig hwn. Yr hyn y mae'n ei ddweud yw nad yr

not just the impact that will fall out of this, but also the impact of preceding legislation, which places requirements. This proposed Measure is just about how the charges are collected. It wants to know what the total end-to-end cost is, and it finds it difficult to establish that.

[18] **Mr Davies:** I will just respond to that one. This proposed Measure is about how the net proceeds could be applied, but, as the Minister has noted, there is no policy intention, certainly for the time being, to use the powers in it. The total end-to-end cost for business will therefore be reflected in the forthcoming regulatory impact assessment, which will accompany the consultation on the charge.

[19] **Jane Davidson:** We have been very clear and, in fact, business has very warmly welcomed the fact that we are proceeding down a voluntary arrangement route.

[20] **Jenny Randerson:** We are clear that voluntary arrangements are your preference, but you can understand that the people who were consulted on this find it significant that this legislation is being introduced and feel that, at some point, it is likely to be used—because it is being introduced; otherwise, why is it coming in? That has been the picture that we have seen, but we have dealt with that sufficiently. We will move on to Bethan.

[21] **Bethan Jenkins:** You touched on this earlier, Minister, but I wonder whether you can expand a little on it. How does any definition of single-use carrier bags in the regulations introduced under the Climate Change Act 2008 relate to the proposed Measure, and do you have any intention of amending the proposed Measure to provide further clarity on that?

[22] **Jane Davidson:** I will answer the second point first. It is not a matter for this proposed Measure to look at the definition of the single-use carrier bag; that is a matter for the legislation under the Climate Change Act 2008, and that is what we will be publishing on 4 June. This proposed Measure is about what happens to the proceeds of the charge

effaith lawn ar fusnes yw'r unig effaith a fydd yn deillio o hyn, ond hefyd effaith deddfwriaeth flaenorol, sy'n gosod gofynion. Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn ymwneud yn unig â sut cesglir taliadau. Mae am gael gwybod beth yw'r gost gyfan, ac mae'n ei chael yn anodd sefydlu hynny.

Mr Davies: Yr wyf am ymateb i hynny yn unig. Mae'r Mesur arfaethedig yn ymwneud â sut gellid cymhwyso'r derbyniadau net, ond, fel y dywedodd y Gweinidog, nid oes bwriad polisi, ar hyn o bryd beth bynnag, i ddefnyddio'r pwerau ynddo. Felly bydd cyfanswm y costau cyfan ar gyfer busnesau yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad effaith rheoleiddiol sydd ar droed, a fydd yn cydfynd â'r ymgynghoriad ar godi tâl.

Jane Davidson: Yr ydym wedi bod yn glir iawn ac, yn wir, mae busnesau wedi rhoi croeso cynnes i'r ffaith ein bod yn mynd ar drywydd trefniant gwirfoddol.

Jenny Randerson: Yr ydym yn glir mai trefniadau gwirfoddol yw eich dewis, ond gallwch ddeall bod y bobl yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â hyn yn ei gweld yn bwysig bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno ac yn teimlo, ar ryw adeg, ei bod yn debyg o gael ei defnyddio—oherwydd ei bod yn cael ei chyflwyno; fel arall, pam ei bod yn cael ei chyflwyno? Dyna yw'r darlun yr ydym wedi'i weld, ond yr ydym wedi ymdrin â hynny'n ddigonol. Symudwn ymlaen at Bethan.

Bethan Jenkins: Yr ydych wedi crybwyll hyn eisoes, Weinidog, ond a allwch chi ymhelaethu ychydig ar hynny? Sut mae unrhyw ddiffiniad o fagiâu siopa untro yn y rheoliadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig hwn, ac a ydych yn bwriadu gwella'r Mesur arfaethedig i roi rhagor o eglurder ar hynny?

Jane Davidson: Yr wyf am ateb yr ail bwynt yn gyntaf. Nid mater i'r Mesur arfaethedig hwn yw edrych ar ddiffiniad o fag siopa untro; mater i'r ddeddfwriaeth yw hynny o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, a dyna beth y byddwn yn ei gyhoeddi ar 4 Mehefin. Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd i

on single-use carrier bags, regardless of how the bag is defined. So, 4 June will give you the proposal, which we will be consulting on, of what a single-use carrier bag is for the purposes of the Climate Change Act. This proposed Measure is about the introduction, as a precautionary measure, of ensuring that the Assembly Government of the future has a tool in the box to make it mandatory if the voluntary scheme, which we have agreed with the retail sector, does not work.

[23] **Bethan Jenkins:** Thank you. I think that that is quite clear now. I want to go on to the term 'net proceeds' contained in section 2. Do you have any intention of providing guidance to retailers on what could reasonably be considered as the costs of operating this compulsory charge? I think that some clarity was needed by Boots so that it could calculate the amount of net proceeds it is required to donate.

[24] **Jane Davidson:** Once again, this comes under the Climate Change Act. 'Net proceeds' means the sellers' gross proceeds of the charge reduced by such amounts as may be specified, and the regulations introducing the charge will specify those amounts. This will be fully consulted on following the announcement on 4 June under the climate change legislation. Subject to the outcome of the forthcoming consultation exercise, those amounts will include VAT, where it is due, as well as reasonable costs in relation to the administration of the charge. As you will know, as I said to this committee previously, the essence of this is to ensure that it is cost neutral to the retailers, so there will be reasonable disbursements for the delivery, function and administration of the charge, and that will be a part of the consultation.

[25] **Bethan Jenkins:** The next question might come into that consultation as well, but do you believe that the provision of public information by retailers to customers as to the end destination of funds raised on the charge could be considered an administrative cost for retailers?

dderbyniadau'r taliadau am fagiâu siopa untro, sut bynnag y diffinnir y bag. Felly, bydd 4 Mehefin yn rhoi'r cynnig i chi, a byddwn yn ymgynghori arno, o'r hyn yw bag siopa untro at ddibenion y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn ymwneud â chyflwyno, fel mesur rhagofalus, o sicrhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol offeryn ar gyfer ei wneud yn orfodol os nad yw'r cynllun gwirfoddol, y cytunwyd arno gyda'r sector manwerthu, yn gweithio.

Bethan Jenkins: Diolch. Credaf fod hynny'n eithaf clir yn awr. Yr wyf am fynd ymlaen at y term 'derbyniadau net' sydd wedi'i gynnwys yn adran 2. A oes gennych unrhyw fwrriad i ddarparu canllawiau i fanwerthwyr ar yr hyn y gellid ei ystyried yn rhesymol yn gostau gweithredu'r tâl gorfodol hwn? Credaf fod angen rhywfaint o esboniad ar Boots er mwyn iddo allu cyfrifo swm y derbyniadau net y mae'n ofynnol iddo ei roi.

Jane Davidson: Unwaith eto, mae hyn yn dod o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Mae 'derbyniadau net' yn golygu derbyniadau gros gwerthwyr o'r taliadau wedi'u gostwng gan symiau fel y gellir eu nodi, a bydd y rheoliadau sy'n cyflwyno'r tâl yn nodi'r symiau hynny. Ymgynghorir yn llawn ar hyn yn dilyn y cyhoeddiad ar 4 Mehefin o dan y ddeddfwriaeth newid yn yr hinsawdd. Yn amodol ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori sydd ar droed, bydd y symiau hynny'n cynnwys TAW, lle mae'n ddyledus, yn ogystal â chostau rhesymol mewn perthynas â gweinyddu'r taliadau. Fel y gwyddoch, fel y dywedais wrth y pwyllgor hwn yn flaenorol, hanfod hyn yw sicrhau ei fod yn niwtral o ran cost i'r manwerthwyr, felly bydd taliadau rhesymol am ddarparu, gweithredu a gweinyddu'r taliadau, a bydd hynny'n rhan o'r ymgynghoriad.

Bethan Jenkins: Efallai y bydd y cwestiwn nesaf yn rhan o'r ymgynghoriad hwnnw hefyd, ond a ydych yn credu y gellid ystyried y ddarpariaeth gwybodaeth gyhoeddus gan fanwerthwyr i gwsmeriaid ynglŷn â phen taith yr enillion a godir ar y taliadau yn gost weinyddol i fanwerthwyr?

10.10 a.m.

[26] **Jane Davidson:** Absolutely. It is the cost of establishing mechanisms to enable the seller to comply with the draft regulations and the cost for communicating information about the charge to customers and staff, including the end destination funds, that will be picked up in that consultation.

[27] **Bethan Jenkins:** Has any thought been given to requiring retailers to pass a minimum percentage of the money raised from the sale of each single-use carrier bag onto good causes?

[28] **Jane Davidson:** The critical element is that this is not a revenue-generating measure and must not be seen as such. A number of witnesses, including the Confederation of British Industry, have emphasised that in their evidence, making that very clear. If the charge is successful, there will be very little in the way of net receipts to be passed on, because customers will be re-using carrier bags far more than they are at present.

[29] On your question of whether a minimum amount of money should be passed on, we expect all net proceeds to be passed on, after an appropriate administration charge and the value-added tax have been taken out. So, we are not requiring a certain amount as a minimum, but we expect all the money to be passed on, after reasonable costs have been taken out.

[30] **Jonathan Morgan:** If it is helpful, I will roll a few questions into one question. Minister, some of the evidence that we have taken suggests that there is confusion over how and why a voluntary or a mandatory scheme would apply. Please correct me if I am wrong, but a voluntary scheme would apply to businesses of more than 50 employees, of which there are roughly 250 in Wales, and a mandatory scheme would apply to all retailers, as you have said in previous evidence. There is concern about why that is the case, so can you explain why a voluntary scheme would apply only to large retailers, but a mandatory scheme would apply to everyone?

Jane Davidson: Yn sicr. Y gost ydyw o sefydlu mecanweithiau i alluogi'r gwerthwr i gydymffurfio â'r rheoliadau drafft a'r gost o gyfathrebu gwybodaeth am y tâl i gwsmeriaid a staff, gan gynnwys pen taith yr enillion, a fydd yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad hwnnw.

Bethan Jenkins: A oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i fynnu bod manwerthwyr yn trosglwyddo ymlaen canran ofynnol o'r arian a godir o werthu pob bag siopa untro at achosion da?

Jane Davidson: Yr elfen hollbwysig yw nad yw hwn yn fesur cynhyrchu refeniw ac ni ddylid ei ystyried felly. Mae nifer o dystion, gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, wedi pwysleisio hynny yn eu tystiolaeth, gan nodi hynny'n glir iawn. Os nad yw'r taliadau'n llwyddiannus, prin fydd y derbyniadau net i'w cyfrannu, oherwydd bydd cwsmeriaid yn aildefnyddio bagiau siopa yn llawer amlach nag y gwnânt ar hyn o bryd.

O ran eich cwestiwn a ddylid trosglwyddo ymlaen swm gofynnol o arian, yr ydym yn disgwyl i'r holl dderbyniadau net gael eu trosglwyddo ymlaen, ar ôl didynnu cost weinyddol briodol a threth ar werth. Felly, nid ydym yn gofyn am swm gofynnol, ond yr ydym yn disgwyl i'r holl arian gael ei drosglwyddo ymlaen, ar ôl didynnu costau rhesymol.

Jonathan Morgan: Os yw'n ddefnyddiol, yr wyf am gyflwyno sawl cwestiwn mewn un cwestiwn. Weinidog, mae rhywfaint o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd yn awgrymu bod dryswch ynglŷn â sut a pham y byddai cynllun gwirfoddol neu orfodol yn cael ei weithredu. Da chi, cywirwch fi os wyf yn anghywir, ond byddai cynllun gwirfoddol yn gymwys i fusnesau gyda mwy na 50 o weithwyr cyflogedig, ac mae oddeutu 250 o'r rhain yng Nghymru, a byddai cynllun gorfodol yn gymwys i bob manwerthwr, fel yr ydych wedi'i ddweud mewn tystiolaeth flaenorol. Mae pryder ynglŷn â'r rheswm dros hynny, felly a allwch egluro pam y byddai cynllun gwirfoddol yn gymwys i fanwerthwyr mawr yn unig, ond y byddai cynllun gorfodol yn gymwys i bawb?

[31] **Jane Davidson:** We must be clear that the charge itself will apply to everyone. So, there is no difference between a mandatory or the voluntary scheme in the context of the charge. The charge will apply to any bags that fall within the definition, and the consultation that will be launched on 4 June will determine which bags fall under the charge. Around 90 per cent of single-use carrier bags in Wales come from the large retailers with more than 50 employees. We wanted to ensure that the large retailers passed on the proceeds to good causes, and we therefore worked out an appropriate agreement with them, with a clear understanding of what the voluntary agreement involves. We are also keen to work with representative organisations, such as the Federation of Small Businesses, which wants to commit to implement any voluntary scheme for its members. So, the charge will be collected by all, but the delivery and operation of that voluntary scheme will primarily be in the context of the large retailers, because they are the largest users of the bags affected by the new charge.

[32] **Jonathan Morgan:** If that is the case, why would you apply the mandatory scheme to everyone, if a voluntary scheme is aimed only at those who provide 90 per cent of the carrier bags in Wales?

[33] **Jane Davidson:** The mandatory scheme could apply to some or all retailers in Wales. That would be for a future Government to decide, if a decision were made to implement the mandatory provisions. You must separate the charge itself, which is fully mandatory, from the key element currently of wanting to work with the retail sector to maximise the partnership and get the best possible outcome. That is the voluntary approach, and the big retailers have been working with us effectively in looking to do that. However, one concern that was also expressed in this committee is that delivering a mandatory scheme as regards where the proceeds are directed could be difficult for very small retailers. We wanted to make sure that we lifted any barriers, particularly to small retailers.

Jane Davidson: Mae'n rhaid i ni fod yn glir y bydd y tâl ei hun yn gymwys i bawb. Felly, nid oes gwahaniaeth rhwng cynllun gorfodol neu'r cynllun gwirfoddol yng nghyd-destun y tâl. Bydd y tâl yn gymwys i unrhyw fagiâu sydd o fewn y diffiniad, a bydd yr ymgynghoriad a fydd yn cael ei lansio ar 4 Mehefin yn pennu pa fagiâu y codir tâl amdanynt. Bagiau'r manwerthwyr mawr gyda mwy na 50 o weithwyr cyflogedig yw oddeutu 90 y cant o'r bagiau siopa untro yng Nghymru. Yr oeddem am sicrhau bod y manwerthwyr mawr yn cyfrannu'r derbyniadau at achosion da, ac felly lluniwyd cytundeb priodol gyda hwy, gyda dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r cytundeb gwirfoddol yn ei olygu. Yr ydym hefyd yn awyddus i weithio gyda sefydliadau cynrychiadol, fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, sydd am ymrwymo i weithredu unrhyw gynllun gwirfoddol ar gyfer ei aelodau. Felly, bydd y taliadau'n cael eu casglu gan bawb ond bydd darparu a gweithredu'r cynllun gwirfoddol hwnnw yng nghyd-destun y manwerthwyr mawr yn bennaf, gan mai hwy yw'r defnyddwyr mwyaf o'r bagiau sy'n cael eu heffeithio gan y taliadau newydd.

Jonathan Morgan: Os yw hynny'n wir, pam y byddech yn gweithredu'r cynllun gorfodol i bawb, os mai at y rhai hynny sy'n darparu 90 y cant o'r bagiau siopa yng Nghymru y mae'r cynllun gwirfoddol wedi ei anelu atynt?

Jane Davidson: Gallai'r cynllun gorfodol fod yn gymwys i rai neu i bob manwerthwr yng Nghymru. Llywodraeth yn y dyfodol fyddai'n penderfynu hynny, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i weithredu'r darpariaethau gorfodol. Mae'n rhaid i chi wahanu'r taliadau, sy'n hollol orfodol, â'r elfen allweddol o fod am weithio ar hyn o bryd gyda'r sector manwerthu i sicrhau'r bartneriaeth fwyaf effeithiol a'r canlyniad gorau posibl. Dyna'r dull gwirfoddol, ac mae'r manwerthwyr mawr wedi bod yn gweithio gyda ni'n effeithiol i geisio gwneud hynny. Fodd bynnag, un pryder a fynegwyd hefyd yn y pwyllgor hwn yw y gallai darparu cynllun gorfodol o ran i ble y cyfeirir y derbyniadau fod yn anodd iawn i fanwerthwyr bach iawn. Yr oeddem am sicrhau ein bod yn goresgyn unrhyw rwystrau, yn enwedig i fanwerthwyr bach.

[34] **Jonathan Morgan:** The only reason I raised the question of who will be covered by the scheme is because you did say in evidence to the committee previously that all retailers would be covered by the mandatory scheme. Obviously, what you have said this morning is different, and there is no guarantee that all retailers will be covered by the mandatory scheme, as that will be left to a future Welsh Assembly Government to determine. The power, in a sense, allows that to happen if the Government wanted to do it.

Jonathan Morgan: Yr unig reswm i mi ofyn y cwestiwn ynglŷn â phwy fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun oedd oherwydd i chi ddweud mewn tystiolaeth flaenorol i'r pwyllgor y byddai pob manwerthwr yn cael eu cynnwys yn y cynllun gorfodol. Yn amlwg, mae'r hyn yr ydych wedi'i ddweud y bore yma yn wahanol, ac nid oes sicrwydd y bydd pob manwerthwr yn cael eu cynnwys yn y cynllun gorfodol, gan y bydd hynny'n cael ei adael i Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol ei bennu. Mae'r pŵer, ar ryw ystyr, yn galluogi i hynny ddigwydd os oedd y Llywodraeth am iddo ddigwydd.

[35] **Jane Davidson:** Yes, that is the point. To reaffirm my point, if I were the Minister at a future point, I would make the mandatory scheme cover all retailers. However, the decision of who is covered by a mandatory scheme will be taken post the election in May 2011, because this Government has made it clear that we are not introducing a mandatory scheme when we introduce the collection arrangements. We want to make sure that we give a voluntary scheme a good run-in. We will review it after two or three years, looking at its effectiveness. So, a future Government could choose to apply a mandatory scheme across all retailers, or it may choose to apply a mandatory scheme based on a threshold for retailers. I would continue to argue that the best way of delivering the scheme is to have voluntary participation, and I would be looking to work with retailers in Wales to secure their voluntary participation in the mandatory charge.

Jane Davidson: Ydy, dyna'r pwynt. I ailadrodd fy mhwynt, pe bawn i yn Weinidog yn y dyfodol, byddwn yn sicrhau bod y cynllun gorfodol yn cynnwys pob manwerthwr. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad ynglŷn â phwy sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun gorfodol yn cael ei wneud ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2011, gan fod y Llywodraeth hon wedi datgan yn glir nad ydym yn cyflwyno cynllun gorfodol pan fyddwn yn cyflwyno'r trefniadau casglu. Yr ydym am sicrhau ein bod yn rhoi dechrau da i gynllun gwirfoddol. Byddwn yn ei adolygu ar ôl dwy neu dair blynedd, gan edrych ar ei effeithlonrwydd. Felly, gallai Llywodraeth yn y dyfodol ddewis gweithredu cynllun gorfodol yn achos pob manwerthwr neu gallai ddewis gweithredu cynllun gorfodol yn seiliedig ar drothwy ar gyfer manwerthwyr. Byddwn yn parhau i ddadlau mai'r ffordd orau o ddarparu'r cynllun yw cael pobl i gyfranogi'n wirfoddol, a byddwn yn edrych ar ffyrdd o weithio gyda manwerthwyr yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn wirfoddol yn y taliadau gorfodol.

[36] **Jonathan Morgan:** Some of the evidence that we have received suggests that a scheme, voluntary or mandatory, ought to be extended to those retailers that provide services at major events such as the Royal Welsh Show. Would the Government consider including that?

Jonathan Morgan: Mae rhywfaint o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i derbyn yn awgrymu y dylid ymestyn cynllun, gwirfoddol neu orfodol, i'r manwerthwyr hynny sy'n darparu gwasanaethau mewn digwyddiadau mawr fel y Sioe Fawr. A fyddai'r Llywodraeth yn ystyried cynnwys hynny?

[37] **Jane Davidson:** I will hand that question over to Prys, because my understanding was that they would be included at any rate.

Jane Davidson: Yr wyf am drosglwyddo'r cwestiwn hwnnw i Prys, oherwydd yr oeddwn i yn ar ddeall y byddent yn cael eu cynnwys beth bynnag.

[38] **Mr Davies:** It depends on whether you are talking about the scheme to pass money on or the charge itself. The charge will be mandatory to everyone, including those retailers. Obviously, a voluntary scheme is, by its very nature, voluntary, but, as the Minister has noted, she would want to encourage everyone, including those groups that you have mentioned, to participate in that approach.

[39] **Jonathan Morgan:** We also discussed the time frame for any review of how successful the voluntary scheme is and, based on that, for any decision over whether to proceed with a mandatory scheme. Do you agree with the Environment Agency's suggestion of a five-year time frame?

[40] **Jane Davidson:** I thought that it would be sensible to review it probably halfway through the next Assembly. I thought that it might make sense to review it two years into the scheme, because that Assembly could then decide whether to make any different legislative arrangements. If the scheme is working broadly well, you may well want to look at a longer timetable for the review, but it will probably need a review in the next Assembly, and that will be a matter for the Members of that Assembly.

[41] **Bethan Jenkins:** We had evidence from Cylch stating that it would prefer a mandatory scheme and to put the money into a centralised charity bank. Have you given any consideration to the fact that a mandatory scheme would work better? Cylch stated that voluntary schemes had not worked effectively, and it thought from the start that a mandatory scheme would work better for this agenda. I know that that was not in agreement with the broad base of evidence that we had, as most evidence has pointed towards a voluntary scheme, so Cylch was different from the start, saying that it would like a mandatory scheme.

[42] **Jane Davidson:** Cylch has had some tremendous success operating with the Charity Bank. I opened a new plastic sorting facility last week, which, supported by the

Mr Davies: Mae'n dibynnu a ydych yn siarad am y cynllun i drosglwyddo arian ymlaen neu'r taliadau eu hunain. Bydd y taliadau'n orfodol i bawb, gan gynnwys y manwerthwyr hynny. Yn amlwg, mae cynllun gwirfoddol, yn ei hanfod, yn wirfoddol, ond, fel y dywedodd y Gweinidog, byddai am annog pawb, gan gynnwys y grwpiau hynny yr ydych wedi'u crybwyll, i gymryd rhan yn y dull hwnnw.

Jonathan Morgan: Trafodwyd hefyd yr amserlen ar gyfer adolygu pa mor llwyddiannus yw'r cynllun gwirfoddol ac, ar sail hynny, ar gyfer unrhyw benderfyniad ynglŷn â mynd ymlaen â chynllun gorfodol ai peidio. A ydych yn cytuno gydag awgrym Asiantaeth yr Amgylchedd am amserlen pum mlynedd?

Jane Davidson: Credaf y byddai'n ddoeth ei adolygu tua hanner ffordd drwy'r Cynulliad nesaf. Fy marn i oedd y byddai'n syniad ei adolygu ddwy flynedd i mewn i'r cynllun, oherwydd y gallai'r Cynulliad hwnnw yna benderfynu a ddylid gwneud unrhyw drefniadau deddfwriaethol gwahanol ai peidio. Os yw'r cynllun yn gweithio'n eithaf da, efallai y byddwch am edrych ar amserlen hwy ar gyfer ei adolygu, ond mae'n debyg y bydd angen ei adolygu yn y Cynulliad nesaf, a bydd hynny'n fater i Aelodau'r Cynulliad.

Bethan Jenkins: Yr ydym wedi derbyn tystiolaeth gan Cylch yn dweud y byddai'n ffafrio cynllun gorfodol a throsglwyddo'r arian i gronfa elusennol ganolog. A ydych wedi ystyried y ffaith y byddai cynllun gorfodol yn gweithio'n well? Nododd Cylch nad oedd cynlluniau gwirfoddol wedi gweithio'n effeithiol, a chredai o'r dechrau y byddai cynllun gorfodol yn gweithio'n well ar gyfer yr agenda hon. Gwn nad oedd hynny'n cyd-fynd â'r sail dystiolaeth eang a oedd gennym, gan fod y rhan fwyaf o dystiolaeth wedi cyfeirio at gynllun gwirfoddol, felly yr oedd Cylch yn wahanol o'r cychwyn, gan ddweud y byddai'n hoffi cynllun gorfodol.

Jane Davidson: Mae Cylch wedi profi llwyddiant ysgubol yng ngweithredu'r Banc Elusennau. Agorais gyfleuster didoli plastig newydd yr wythnos diwethaf, sydd, gyda

Charity Bank and the Assembly Government, fills a gap in the market. The critical element is that this is not a revenue-generating scheme. That is the big aspect of this agenda, which has been very warmly supported by all Assembly Members. So, it is not a revenue-generating scheme; it is primarily a behaviour-changing scheme. We are all committed to the revenue that is generated going to good environmental courses, as the committee proposed. However, a mandatory scheme, which would involve far more administration and enforcement, is not the way forward, if the voluntary scheme is working. The critical element is whether the voluntary scheme will work effectively. That is why it will be for a future Government to determine whether to implement a mandatory scheme.

10.20 a.m.

[43] **Brian Gibbons:** On the point that Bethan raised—and I think that Cylch and others made this point—if money is to be raised, is there anything in the legislation that will prevent that money from being used for an endowment fund, or something like that, rather than for the direct revenue activities of an organisation? You could use the money as an endowment that future organisations can draw down, so that there would be a revenue stream in perpetuity, if Cylch's vision were possible. Is there anything in the legislation to stop Cylch's type of approach being adopted? Does it prohibit that type of innovative proposal?

[44] **Jane Davidson:** That is a question for a lawyer.

[45] **Ms James:** Section 1(2) of the proposed Measure provides that sellers can be required to give the proceeds to one or more specified purposes or persons. I am afraid that I am not able to give an indication today as to whether what you have just described would fall within that.

[46] **Jane Davidson:** We can write to you on that. There is a major opportunity for Cylch to work with retailers on where the money that will come out of the scheme will be invested.

chymorth y Banc Elusennau a Llywodraeth y Cynulliad, yn llenwi bwlch yn y farchnad. Yr elfen hanfodol yw nad yw hwn yn gynllun cynhyrchu refeniw. Dyna elfen fawr yr agenda hon, sydd wedi derbyn croeso cynnes gan holl Aelodau'r Cynulliad. Felly, nid yw'n gynllun cynhyrchu refeniw; mae'n gynllun newid ymddygiad yn bennaf. Yr ydym i gyd yn ymrwymedig i'r refeniw sy'n cael ei gynhyrchu yn mynd at achosion amgylcheddol da, fel y cynigiodd y pwyllgor. Fodd bynnag, nid cynllun gorfodol, a fyddai'n golygu llawer mwy o waith gweinyddu a gorfodi, yw'r ffordd ymlaen, os yw'r cynllun gwirfoddol yn gweithio. Yr elfen hanfodol yw a fydd y cynllun gwirfoddol yn gweithio'n effeithiol. Dyna pam mai cyfrifoldeb Llywodraeth yn y dyfodol fydd penderfynu ai gweithredu cynllun gorfodol.

Brian Gibbons: Ynghylch y pwynt a godwyd gan Bethan—a chredaf fod Cylch ac eraill wedi gwneud y pwynt hwn—os oes arian i gael ei godi, a oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth a fydd yn ein hatal rhag defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer cronfa waddol, neu rywbeth tebyg, yn hytrach nag ar gyfer gweithgareddau refeniw uniongyrchol sefydliad? Gallech ddefnyddio'r arian fel cronfa waddol y gall sefydliadau ei defnyddio yn y dyfodol, er mwyn sicrhau ffrwd refeniw am byth, pe bai gweledigaeth Cylch yn bosibl. A oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth i atal dull fel un Cylch rhag cael ei fabwysiadu? A yw'n gwahardd cynnig arloesol o'r fath?

Jane Davidson: Mae hynny'n gwestiwn i gyfreithiwr.

Ms James: Mae adran 1(2) y Mesur arfaethedig yn darparu y gall fod yn ofynnol i werthwyr roi'r derbyniadau i un diben neu berson penodol neu fwy. Ofnaf na allaf awgrymu heddiw a fyddai'r hyn yr ydych newydd ei ddisgrifio yn disgyn o fewn hynny.

Jane Davidson: Gallwn ysgrifennu atoch ar hynny. Mae cyfle gwych i Cylch weithio gyda manwerthwyr ar ble y bydd yr arian a fydd yn dod allan o'r cynllun yn cael ei fuddsoddi.

[47] **Eleanor Burnham:** I appreciate that I am substituting today, but I wanted to draw your attention to a letter that we have received from Carmarthenshire today. On the question about achieving the stated objectives, it says that it is important that any moneys raised are expended in the locality in which they are generated, on a transparent basis, and that they go to schemes that have a direct waste-reduction-related benefit, such as the creation of plastic-bag-free towns. Obviously, it is one of many local authorities administering schemes under Government direction. Do you not agree that that would benefit everyone and that, in respect of democracy and being transparent and open with the general public, there might be even more support for the proposed Measure if you adhered to its request?

[48] **Jane Davidson:** We have in fact been very strong on the issue of localism throughout this process. In particular, we have said that, where there is a small group of shops on a high street in a village or small town, those shops might wish to club together to support local initiatives. We do think that that will help with that buy-in. That is why the flexibility of the voluntary scheme becomes much more attractive, as opposed to our coming in with a mandatory scheme at the outset, as well as the possibility of looking at generating local arrangements and beginning to look at good practice through that.

[49] **Jonathan Morgan:** This is my final question. If there were a review of the voluntary scheme after a two-year period, as you mentioned earlier, and it was determined by a future Government that the voluntary scheme was not working and that it would be desirable to implement a mandatory scheme, do you think that there should be some sort of transitional timescale between the two schemes, or do you think that that should happen immediately after the publication of any review?

[105] **Brian Gibbons:** I am sure that the numbers would be small, but there would still be an outlet for single-use plastic bags at exhibitions, conferences, at events such as Glastonbury festival and so on, if the goods were not being sold.

[106] **Jane Davidson:** Well, Glastonbury has not moved to Wales. *[Laughter.]*

[107] **Brian Gibbons:** Okay, the Green Man Festival, then.

[108] **Jane Davidson:** In the context of events management, we are looking at waste management issues, and I do not know whether Andy wants to say something about that. When the Assembly Government gives money to organisations to hold festivals, there are ways of imposing conditions on the use of the sites. They may not be legal in the same way as this is, which will come through regulations, but the Assembly Government has the power to place conditions relating to various elements in its agreements with the organisers of festivals. The Assembly

hyd yn oed os nad ydynt yn fanwerthwyr? Gadewch i ni dybio bod y Blaid Lafur yn mynd i gynhadledd yn y Sioe Fawr ac yn dosbarthu copi o'r maniffesto mewn bag plastig, er enghraifft.

Jane Davidson: Yr wyf yn gweld—gan nad oedd yn fan gwerthu.

Brian Gibbons: Ie.

Jane Davidson: Ni fyddai'r Mesur arfaethedig yn cynnwys y sefyllfa honno, gan na fyddai'n fan gwerthu. Yn y cyd-destun hwnnw, byddai'n rhaid i ni nodi ein disgwyliadau yn hollol glir na fyddai'r bobl hynny a fyddai'n arddangos yn y Sioe Fawr, er enghraifft, yn cael defnyddio bagiau siopa untro. Fodd bynnag, byddai'r ddeddfwriaeth hon ond yn cwmpasu manau gwerthu. A yw hynny'n gywir?

Ms James: Ydy, mae hynny'n gywir. Bydd y rheoliadau y bydd y Gweinidog yn ymgynghori arnynt ym mis Mehefin yn gymwys i fagiau siopa untro sy'n cael eu rhoi gan fanwerthwyr sy'n gwerthu nwyddau wrth fasnachu neu wneud busnes yn unig.

Brian Gibbons: Yr wyf yn sicr y byddai'r niferoedd yn isel, ond byddai lle o hyd ar gyfer bagiau plastig untro mewn arddangosfeydd, cynadleddau, a digwyddiadau fel gŵyl Glastonbury ac ati, pe na bai'r nwyddau'n cael eu gwerthu.

Jane Davidson: Wel, nid yw Glastonbury wedi symud i Gymru. *[Chwerthin.]*

Brian Gibbons: O'r gorau, Gŵyl y Dyn Gwyrdd.

Jane Davidson: Yng nghyd-destun rheoli digwyddiadau, yr ydym yn edrych ar faterion rheoli gwastraff, ac nid wyf yn gwybod a yw Andy am ddweud rhywbeth am hynny. Pan mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian i sefydliadau gynnal gwyliau, mae ffyrdd o osod amodau ar ddefnyddio safleoedd. Efallai nad ydynt yn gyfreithiol yn yr un ffordd â hyn, a fydd yn dod drwy reoliadau, ond mae gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer i osod amodau sy'n ymwneud ag elfennau amrywiol yn ei chytundebau â threfnwyr gwyliau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'n ofalus

Government will be monitoring carefully the issues regarding single-use carrier bags more generally to determine whether we need to put other grant-type conditions in place to support this agenda.

[109] **Mr Rees:** We are working with some of the major shows in Wales on issuing single-use plastic bags, and they are very receptive to this agenda.

[110] **Jenny Randerson:** We need to move onto the next section on waste targets now.

[111] **Brian Gibbons:** Yes. It has been suggested to us that we are covering only municipal waste and that we are not setting targets for other types of waste. One particular area that was mentioned was that of waste electrical and electronic equipment. Has any consideration been given to establishing targets for waste other than municipal waste?

[112] **Jane Davidson:** Municipal waste is in a different category because there is a statutory responsibility to collect waste in the municipal sector. That is why it is important to have targets that reflect the statutory responsibility. I said at the beginning that we will be looking at sector plans in each of the economic areas and, in fact, through the 'Towards Zero Waste' strategy, we are setting 70 per cent targets across the piece in all waste sectors. However, we will be using different mechanisms for delivery.

[113] On the waste electrical and electronic equipment directive, all such equipment collected from households by local authorities, collected from businesses or left at local authority bring sites will be included in the targets set under the proposed Measure, because it will count as municipal waste. However, the proposed Measure allows us to set targets for the future, and it may well be that a future Government will want to look at specifying targets for waste streams such as WEEE in the future. The proposed Measure allows a future Government to take appropriate action on waste targets. At the moment, we are focusing on the most immediate necessary waste targets.

y materion sy'n ymwneud â bagiau siopa untro yn fwy cyffredinol i bennu a oes angen i ni osod amodau eraill tebyg i amodau grantiau i gefnogi'r agenda hon.

Mr Rees: Yr ydym yn gweithio gyda rhai o'r prif sioeau yng Nghymru ar ddsbarthu bagiau plastig untro, ac y maent yn agored iawn i'r agenda hon.

Jenny Randerson: Mae angen i ni symud ymlaen at yr adran nesaf ar dargedau gwastraff yn awr.

Brian Gibbons: Oes. Awgrymwyd i ni ein bod yn cynnwys gwastraff trefol yn unig ac nad ydym yn gosod targedau ar gyfer mathau eraill o wastraff. Un maes penodol a grybwyllwyd oedd gwastraff cyfarpar trydanol ac electronig. A oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i bennu targedau ar gyfer gwastraff ar wahân i wastraff trefol?

Jane Davidson: Mar gwastraff trefol mewn categori gwahanol oherwydd bod cyfrifoldeb statudol i gasglu gwastraff yn y sector trefol. Dyna pam ei bod yn bwysig gosod targedau sy'n adlewyrchu'r cyfrifoldeb statudol. Dywedais ar y dechrau y byddwn yn edrych ar gynlluniau'r sectorau ym mhob un o'r meysydd economaidd ac, yn wir, drwy'r strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yr ydym yn gosod targedau 70 y cant ar draws y darn ym mhob sector gwastraff. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio gwanhaol fecanweithiau ar gyfer eu cyflawni.

Ar y gyfarwydddeb cyfarpar trydanol ac electronig, bydd yr holl gyfarpar o'r fath a gesglir o aelwydydd gan awdurdodau lleol, a gesglir o fusnesau neu sy'n cael ei adael mewn safleoedd dod â gwastraff awdurdodau lleol yn cael ei gynnwys yn y targedau a osodir o dan y Mesur arfaethedig, oherwydd y bydd yn cyfrif fel gwastraff trefol. Fodd bynnag, mae'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i ni osod targedau ar gyfer y dyfodol, ac efallai yn wir y bydd Llywodraeth yn y dyfodol am edrych ar nodi targedau ar gyfer ffrydiau gwastraff fel cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y dyfodol. Mae'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i Lywodraeth yn y dyfodol gymryd camau priodol ar

dargedau gwastraff. Ar hyn o bryd, yr ydym yn canolbwyntio ar y targedau gwastraff sydd eu hangen ar unwaith.

[114] **Brian Gibbons:** So, potentially there is the option of using non-statutory targets or agreed targets for other sectors.

Brian Gibbons: Felly, mae opsiwn o bosibl i ddefnyddio targedau anstatudol neu dargedau y cytunir arnynt ar gyfer sectorau eraill.

[115] **Jane Davidson:** They will be in the sector plans.

Jane Davidson: Byddant yng nghynlluniau'r sectorau.

[116] **Brian Gibbons:** The point has also been made that because the proposed Measure focuses so much on recycling as opposed to other activities higher up the waste hierarchy, such as reducing packaging and promoting re-use, there is possibly a distorting effect. Would you like to comment on that?

Brian Gibbons: Mae'r pwynt wedi'i wneud hefyd oherwydd bod y Mesur arfaethedig yn canolbwyntio cymaint ar ailgylchu yn hytrach na gweithgareddau eraill sy'n uwch ar yr hierarchaeth wastraff, fel lleihau'r pecynnu a hyrwyddo aildefnyddio, mae posibilrwydd o effaith gamarweiniol. A hoffech roi sylwadau ar hynny?

[117] **Jane Davidson:** Waste minimisation is the primary element driving our agenda, just as energy efficiency is in another part of my portfolio. That is why the overarching umbrella strategy is called 'Towards Zero Waste'. It is predicated on the reduction of our ecological footprint, so it is about resource efficiency. The greatest single contribution that we can make is to reduce resource consumption and waste production. So, recycling more will make a significant contribution to reducing our ecological footprint, especially against the background of reducing waste arisings. So, we do not see any contradiction between waste minimisation and high recycling. In fact, percentage-based recycling targets favour those authorities that have lower arisings, so that is all part of driving waste arisings down.

Jane Davidson: Lleihau gwastraff yw'r brif elfen sy'n gyrru ein hagenda ymlaen, lle y mae effeithlonrwydd ynni yn rhan arall o fy mhortffolio. Dyna pam y gelwir y strategaeth ambarél drosfwaol yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Mae wedi'i seilio at leihau ein hól troed ecolegol, felly mae'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau. Y cyfraniad unigol mwyaf y gallwn ei wneud yw lleihau'r defnydd o adnoddau a'r gwastraff a gynhyrchir. Felly, bydd ailgylchu mwy yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau ein hól troed ecolegol, yn enwedig yn erbyn y cefndir o leihau'r gwastraff a gynhyrchir. Felly, nid ydym yn gweld unrhyw wrth-ddweud rhwng lleihau gwastraff ac ailgylchu uchel. Yn wir, mae targedau ailgylchu sy'n seiliedig ar ganrannau yn ffafrio'r awdurdodau hynny sy'n cynhyrchu llai o wastraff, felly mae hynny i gyd yn rhan o'r ymdrech i gynhyrchu llai o wastraff.

[118] **Brian Gibbons:** You will be aware that, in any target regime, a compliance mentality can be created so that although different aims are complementary, people respond only in a compliant way. So, there is a focus on recycling here, but waste minimisation or other things higher up the waste hierarchy might not be concentrated on simply because of this compliance mentality that we see with a lot of target-based regimes. In other words, there is an overall purpose for a project and, to identify that, certain targets and activities are set out, but people then lose

Brian Gibbons: Byddwch yn ymwybodol, mewn unrhyw gyfundrefn o dargedau, y gellir creu meddylfryd o gydymffurfio sy'n golygu bod pobl ond yn ymateb drwy gydymffurfio, er bod gwahanol nodau yn gyflenwol. Felly, mae ffocws ar ailgylchu yma, ond efallai nad ydym yn canolbwyntio ar leihau gwastraff neu bethau eraill sy'n uwch yn yr hierarchaeth wastraff oherwydd y meddylfryd o gydymffurfio hwn yn unig a welwn gyda llawer o gyfundrefnau sy'n seiliedig ar dargedau. Mewn geiriau eraill, mae diben cyffredinol i brosiect ac, i nodi

sight of the overall purpose as they are just complying with the specific target. They concentrate on that—in this instance, on recycling—but miss the bigger picture, which is, here, to prevent waste in the first place.

11.00 a.m.

[119] **Jane Davidson:** We are not just looking at one target. If we were, I would have more sympathy with that view. We already have twin levers—first, in the context of the landfill tax, and secondly, the statutory targets in the municipal sector—but we also have a lever in the context of landfill bans. Those will all promote the diversion of waste from landfill, which is the primary objective, and they will increase recycling for those waste streams. So, it is not just about one target, but about using all the mechanisms to drive down the amount of waste that already goes into the system, as well as make sure that any waste that goes into the system is appropriately used. With non-statutory targets, we know that there is still far too much waste going to landfill, even for those authorities that are doing fairly well on the current aspirational targets.

[120] **Brian Gibbons:** Or even to prevent waste from being generated in the first place.

[121] **Jane Davidson:** Yes.

[122] **Brian Gibbons:** Do you think that there should be a transitional period for local authorities to achieve recycling targets, as happened with the landfill allowance scheme, to assist them to make steadier progress rather than climbing a cliff-face?

[123] **Jane Davidson:** We already have that in place. The targets have been set as a number of increases over time, from 2012-13 to 2019-20, so they are already transitional. We have had very long discussions with local authorities about the levels of the targets, we have independent studies from Eunomia Research and Consulting, and we have our

hynny, sefydlir targedau a gweithgareddau penodol, ond yna mae pobl yn colli golwg ar y diben cyffredinol gan eu bod ond yn cydymffurfio â tharged penodol. Maent yn canolbwyntio ar hynny—yn yr achos hwn, ar ailgylchu—ond yn methu'r darlun cyffredinol, sef atal gwastraff yn y lle cyntaf.

Jane Davidson: Nid ydym yn edrych ar un targed yn unig. Pe baem yn gwneud hynny, byddai gennyf fwy o gydymdeimlad gyda'r farn honno. Mae gennym eisoes ddau ysgogiad—yn gyntaf, yng nghyd-destun y dreth dirlenwi, ac yn ail, y targedau statudol yn y sector trefol—ond mae gennym hefyd ysgogiad yng nghyd-destun gwaharddiadau ar dirlenwi. Bydd y rheini i gyd yn hyrwyddo arallgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, sef y prif amcan, a byddant yn cynyddu ailgylchu ar gyfer y ffrydiau gwastraff hynny. Felly, nid yw'n ymwneud ag un targed yn unig, ond â defnyddio'r holl fecanweithiau i leihau'r gwastraff sydd eisoes yn mynd i mewn i'r system, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw wastraff sy'n mynd i mewn i'r system yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Gyda thargedau anstatudol, gwyddom fod llawer gormod o wastraff yn cael ei dirlenwi, hyd yn oed ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n gwneud yn eithaf da o ran y targedau uchelgeisiol cyfredol.

Brian Gibbons: Neu hyd yn oed i atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf.

Jane Davidson: Ie.

Brian Gibbons: A ydych yn credu y dylai fod cyfnod pontio i awdurdodau lleol gyflawni targedau ailgylchu, fel y digwyddodd gyda'r cynllun lwfans tirlenwi, i'w cynorthwyo i wneud cynnydd mwy cyson yn hytrach na mynd ati i wneud popeth ar unwaith?

Jane Davidson: Mae hynny eisoes ar waith gennym. Mae'r targedau wedi'u gosod fel nifer o gynyddiadau dros amser, o 2012-13 i 2019-20, felly maent eisoes yn pontio. Yr ydym wedi cynnal trafodaethau hir iawn ag awdurdodau lleol am lefelau'r targedau, mae gennym astudiaethau annibynnol gan Eunomia Research and Consulting, ac mae

waste programme board with local authorities to review all these issues. So, the period from now until 2013 is the key period for local authorities to gear up to achieve the next recycling rate. It is 40 per cent in 2010, and 52 per cent for 2012-13, which requires an increase of four percentage points per year. That is consistent with the trajectory that local authorities had to meet the 2003-04, 2006-07 and 2009-10 targets. So, in a sense, we have already been in a long period of transition and will carry on with a similar period of transition to get us to the 2025 target of 70 per cent.

[124] **Brian Gibbons:** Following on from that, because of the variable progress that is being made in Wales, do you think that there is a case for variable targets, or are national targets the way forward?

[125] **Jane Davidson:** We had long discussions about this, and Andy may want to add something in a moment. We made some assessment of rural, urban and Valleys authorities to see whether there were such significant differences that we would need differential targets. However, it was not the case. Those authorities in each category that had seized this agenda were delivering similarly well, so we thought it important to have clear national targets.

[126] It is also important to say that we have put in a lot of extra money. Some £73 million of the sustainable waste management grant will go this year to support recycling infrastructure. So, there has been a major investment in local authorities for their delivery. Andy, do you want to add anything?

[127] **Mr Rees:** Yes. A number of different variables affect recycling rates according to the three main categories of local authorities, and they tend to cancel each other out. The results that we have seen across the three types of authority tend to bear that out. Where there are differences, it is often because a particular authority has not introduced a particular service that other authorities have, or they have introduced something earlier compared with other

gennym ein bwrdd rhaglen gwastraff gydag awdurdodau lleol i adolygu'r holl faterion hyn. Felly, y cyfnod rhwng nawr a 2013 yw'r cyfnod allweddol i awdurdodau lleol fynd ati i gyrraedd y gyfradd ailgylchu nesaf. Mae'n 40 y cant yn 2010, a 52 y cant ar gyfer 2012-13, sy'n gofyn am gynydd o bedwar y cant y flwyddyn. Mae hynny'n gyson â'r taflwybr bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyflawni targedau 2003-04, 2006-07 a 2009-10. Felly, i raddau, yr ydym eisoes wedi bod mewn cyfnod pontio hir a byddwn yn parhau â chyfnod pontio tebyg i gyrraedd y targed o 70 y cant yn 2025.

Brian Gibbons: Gan ddilyn ymlaen o hynny, oherwydd y cynnydd amrywiol sy'n cael ei wneud yng Nghymru, a ydych yn credu bod achos dros dargedau amrywiol, neu ai targedau cenedlaethol yw'r ffordd ymlaen?

Jane Davidson: Cynhaliwyd trafodaethau hir gennym am hyn, ac efallai y bydd Andy am ychwanegu rhywbeth mewn eiliad. Aseswyd awdurdodau gwledig, trefol a'r Cymoedd i ryw raddau gennym i weld a oedd gwahaniaethau mor sylweddol fel y byddai angen gwahanol dargedau arnom. Fodd bynnag, nid dyna gafwyd. Yr oedd yr awdurdodau hynny ym mhob categori a oedd wedi mynd i'r afael â'r agenda hon yn cyflawni llawn cystal â'i gilydd, felly yr oeddem yn credu ei bod yn bwysig cael targedau cenedlaethol clir.

Mae hefyd yn bwysig dweud ein bod wedi cyfrannu llawer o arian ychwanegol. Eleni bydd tua £73 miliwn o grant rheoli gwastraff cynaliadwy yn mynd at gefnogi seilwaith ailgylchu. Felly, bu buddsoddiad sylweddol mewn awdurdodau lleol er mwyn eu cyflawni. Andy, a ydych am ychwanegu unrhyw beth?

Mr Rees: Ydw. Mae nifer o wahanol ffactorau amrywiol yn effeithio ar gyfraddau ailgylchu yn ôl y tri phrif gategori o awdurdodau lleol, ac maent yn tueddu i ddileu ei gilydd. Mae'r canlyniadau a welsom ar draws y tri math o awdurdod yn tueddu i brofi hynny. Lle mae gwahaniaethau, mae'n aml oherwydd nad yw awdurdod penodol wedi cyflwyno gwasanaeth penodol y mae awdurdodau eraill wedi'i gyflwyno, neu eu bod wedi cyflwyno rhywbeth yn gynharach

authorities.

[128] **Brian Gibbons:** Finally, as part of the wider collaboration agenda, is there scope for local authorities to pool their targets on a collaborative basis, as either a temporary or a permanent measure? Instead of the target being for an individual local authority, local authorities could have a joint target across three, four, five or six local authorities. They would collaborate so that they would all be accountable for the joint target. Would that be possible under this proposal?

[129] **Jane Davidson:** We are undertaking a very strong collaborative agenda on this, on how residual waste is dealt with and on how the anaerobic digestion project is being taken forward across Wales. We had long discussions with local authorities about pooled targets, but the issue that remained unresolved was that if authority X did not perform in relation to its contribution towards a pooled target, the other authorities would have to overperform to make up for the laggard's performance. No proposal was ever made to us about other authorities having to up their game to meet the gap, as it were, left by the poorly performing authority. So, the danger of the pooling approach is that you end up with either Wales or a group of local authorities being penalised in infraction proceedings because the landfill allowance scheme is infractable, whereas if they have their own individual targets, they all have the authority for the delivery in their own areas. Although we are providing the mechanisms for the facilities on a collaborative basis, we think that it is best for the delivery of the obligation to sit with the individual local authority.

[130] **Brian Gibbons:** That is a good argument against mandatory collaboration, but is there anything in this to prevent voluntary collaboration that would have the same impact?

[131] **Jane Davidson:** They will be given their own recycling or landfill allowance scheme targets. If they want to choose a collaborative method for delivery, that is a matter for them. It may well be, in the context of the facilities that are provided, that

nag awdurdodau eraill.

Brian Gibbons: Yn olaf, fel rhan o'r agenda cydweithredu ehangach a oes cwmpas i awdurdodau lleol gronni eu targedau ar sail gydweithredol, naill ai fel mesur dros dro neu fesur parhaol? Yn hytrach na bod y targed ar gyfer awdurdod lleol unigol, gallai awdurdodau lleol sefydlu targed ar y cyd ar draws tri, pedwar, pump neu chwe awdurdod lleol. Byddent yn cydweithio er mwyn iddynt i gyd fod yn atebol am y targed ar y cyd. A fyddai hynny'n bosibl o dan y cynnig hwn?

Jane Davidson: Yr ydym yn ymgymryd ag agenda gydweithredu gadarn iawn ar hyn, ar sut yr ymdrinnir â gwastraff gweddilliol ac ar sut y datblygir y prosiect treulio anaerobig ledled Cymru. Cynhaliwyd trafodaethau hir gennym gydag awdurdodau lleol am dargedau cyfun, ond y mater nad oedd wedi'i ddatrys oedd pe na bai awdurdod X yn perfformio mewn perthynas â'i gyfraniad tuag at darged cyfun, byddai'n rhaid i'r awdurdodau eraill berfformio'n well i wneud iawn am berfformiad y diogyn. Ni wnaed unrhyw gynnig i ni erioed am awdurdodau yn gorfod ymdrechu'n galetach i lenwi'r bwlch, fel pe bai, a adawyd gan yr awdurdod a oedd yn perfformio'n wael. Felly, perygl y dull cyfun yw y bydd gennych naill ai Gymru neu grŵp o awdurdodau lleol yn cael eu cosbi am achosion tordyletswydd oherwydd bod y cynllun lwfans tirlenwi yn torri dyletswydd, ond os oes ganddynt eu targedau unigol eu hunain, mae ganddynt i gyd yr awdurdod i gyflawni yn eu hardaloedd eu hunain. Er ein bod yn darparu'r mecanweithiau ar gyfer y cyfleusterau ar sail gydweithredol, credwn mai aros gyda'r awdurdod lleol unigol yw'r peth gorau ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaeth.

Brian Gibbons: Mae hynny'n ddadl dda yn erbyn cydweithredu gorfodol, ond a oes unrhyw beth yn hyn i atal cydweithredu gwirfoddol a fyddai'n cael yr un effaith?

Jane Davidson: Byddant yn cael eu targedau cynllun ailgylchu neu lwfans tirlenwi eu hunain. Os ydynt am ddewis dull cydweithredol o ddarparu hyn, eu dewis hwy fydd hynny. Efallai, yng nghyd-destun y cyfleusterau a ddarperir, y gallai hynny

that might make sense to them. They would still have to own their targets, however, because they would be statutory targets.

[132] **Brian Gibbons:** I can understand the argument for mandatory individual targets. That case is well made. However, you say that it is not possible to agree to pool targets and that targets have to apply to individual local authorities.

[133] **Eleanor Burnham:** Before I ask my question, it might be helpful for viewers—because there are viewers—to clarify what ‘WEEE’ stands for. It stands for ‘waste electrical and electronic equipment’. I think that that might be useful because a lot of people may not understand some of our terminology.

[134] Minister, why do you believe that the introduction of financial penalties is necessary to ensure that local authorities meet the statutory targets? What discussion have you had with local authorities about the introduction of financial penalties for non-compliance?

[135] **Jane Davidson:** The penalties for non-compliance would always be an absolute last resort. In fact, we addressed this when I last came in front of the committee. When Brian was the Minister for local government, new arrangements were introduced and the support and audit arrangements under the Local Government (Wales) Measure 2009 would be the first port of call in relation to local authorities. There is a penalties protocol that the Welsh Local Government Association has officially agreed. Penalties are always an absolute last resort. We will look to parallel what is happening in the recycling agenda with the landfill allowance schemes; there will be no difference between the two. Local authorities have been working within that arrangement for some years.

[136] This also refers back to a point that Brian made earlier about preventing the skewing of priorities, for example, when local authorities give more priority to limiting the landfill of biodegradable municipal waste

wneud synnwyr iddynt. Byddent yn dal i orfod bod â'u targedau eu hunain, fodd bynnag, oherwydd y byddent yn dargedau statudol.

Brian Gibbons: Yr wyf yn gallu deall y ddadl dros dargedau unigol gorfodol. Mae'r achos hwnnw wedi'i wneud yn dda. Fodd bynnag, yr ydych yn dweud nad yw'n bosibl cytuno i gronni targedau a bod yn rhaid i dargedau fod yn gymwys i awdurdodau lleol unigol.

Eleanor Burnham: Cyn i mi ofyn fy nghwestiwn, efallai y byddai'n ddefnyddiol i wylwyr—oherwydd mae gwylwyr—i egluro ystyr ‘WEEE’. Ei ystyr yw ‘cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff’. Credaf y gallai hynny fod yn ddefnyddiol gan nad yw llawer o bobl yn deall peth o'n terminoleg o bosibl.

Weinidog, pam y credwch fod angen cyflwyno cosbau ariannol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni targedau statudol? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gydag awdurdodau lleol am gyflwyno cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfio?

Jane Davidson: Y cosbau am ddiffyg cydymffurfio fyddai'r opsiwn olaf un bob tro. Yn wir, trafodwyd hyn gennym y tro diwethaf i mi ddod ger bron y pwyllgor. Pan yr oedd Brian yn Weinidog dros lywodraeth leol, cyflwynwyd trefniadau newydd a'r trefniadau cymorth ac archwilio o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 fyddai'r opsiwn cyntaf mewn perthynas ag awdurdodau lleol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno'n swyddogol ar brotocol cosbau. Yr opsiwn olaf un yw cosbau bob tro. Byddwn yn ceisio sicrhau bod yr un peth yn digwydd gyda'r agenda ailgylchu o ran y cynlluniau lwfans tirlenwi; ni fydd gwahaniaeth rhwng y ddau. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio o fewn y trefniant hwnnw ers rhai blynnydoedd.

Mae hyn hefyd yn cyfeirio'n ôl at bwynt y gwnaeth Brian yn gynharach am atal gogwyddo blaenoriaethau, er enghraifft, wrth i awdurdodau lleol roi mwy o flaenoriaeth i gyfyngu ar dirlenwi gwastraff trefol

than recycling, which they could do if they had only one target in the system because the landfill regime already has financial penalties associated with it. Interestingly enough, no authority has failed to meet its landfill allowance scheme targets with the penalty system in place, but several authorities have failed and are failing to meet the non-statutory recycling targets. So, statutory targets with associated penalties reflect the priorities of the Assembly Government and the hierarchy of priorities in 'Towards Zero Waste'.

bioddiraddadwy nag ailgylchu, sy'n rhywbeth y gallent ei wneud pe bai ganddynt ond un targed yn y system oherwydd bod cosbau ariannol eisoes yn gysylltiedig â'r gyfundrefn dirlenwi. Yn ddi-ddorol ddigon, nid oes yr un awdurdod wedi methu cyflawni'r targedau cynllun lwfans tirlenwi gyda'r system gosbi yn ei lle, ond mae sawl awdurdod wedi methu ac yn methu cyflawni'r targedau ailgylchu anstatudol. Felly, mae targedau statudol gyda chosbau cysylltiedig yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad a'r hierarchaeth o flaenoriaethau yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.

[137] It is also worth pointing out that we know that some local authority waste departments have been able to secure additional resources from their local authorities because of the penalties associated with the landfill allowance scheme. So, the proposed waste Measure will enable them to do the same in the context of recycling. Let us say, at the end of the day, if they secure the targets, they will get financial savings.

Mae'n werth nodi hefyd ein bod yn gwybod bod rhai adrannau gwastraff awdurdodau lleol wedi gallu sicrhau adnoddau ychwanegol gan eu hawdurdodau lleol oherwydd y cosbau sy'n gysylltiedig â'r cynllun lwfans tirlenwi. Felly, bydd y Mesur gwastraff arfaethedig yn eu galluogi i wneud yr un peth yng nghyd-destun ailgylchu. Gadewch i ni ddweud, yn y pen draw, os ydynt yn cyflawni'r targedau, byddant yn cael arbedion ariannol.

[138] **Eleanor Burnham:** In the case of non-compliance, how will you demonstrate that it is the local authority's failings rather than the limitations of the methods that you have imposed or the low level of voluntary participation that is the cause of poor performance?

Eleanor Burnham: Yn achos diffyg cydymffurfio, sut byddwch yn dangos mai methiannau'r awdurdod lleol yn hytrach na chyfyngiadau'r dulliau yr ydych wedi'u gosod neu'r lefel isel o gymryd rhan gwirfoddol sydd wrth wraidd y perfformiad gwael?

11.10 a.m.

[139] **Jane Davidson:** Local authorities need to introduce the right methods to increase recycling. That is within their powers. There is substantial external evidence about what the right methods are. They have been given substantial extra funding by the Assembly Government to introduce the necessary systems, such as food waste collection. They have various powers and mechanisms to ensure the participation of householders. They also have the power to undertake extensive awareness campaigns to promote the benefits of recycling among householders. They can also increase the range of recyclable materials collected. They can increase access to—and the provision of—recycling facilities, by creating more

Jane Davidson: Mae angen i awdurdodau lleol gyflwyno'r dulliau cywir i gynyddu ailgylchu. Mae hynny o fewn eu pwerau. Mae tystiolaeth allanol sylweddol am beth yw'r dulliau cywir. Maent wedi cael arian ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r systemau angenrheidiol, fel casglu gwastraff bwyd. Mae ganddynt bwerau a mecanweithiau amrywiol i sicrhau bod deiliaid tai yn cymryd rhan. Mae ganddynt hefyd y pŵer i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth eang i hyrwyddo manteision ailgylchu ymysg deiliaid tai. Gallant hefyd gynyddu amrywiaeth y deunyddiau i'w hailgylchu a gesglir. Gallant gynyddu mynediad i—a'r ddarpariaeth o—gyfleusterau ailgylchu, drwy

recycling centres and banks, for example, and thereby providing a greater degree of choice. The solutions are in their hands.

[140] **Eleanor Burnham:** There is evidence relating to extra burdens, including reporting burdens, but we will move on. Could you provide the committee with any further information on how statutory recycling targets will be monitored and policed? Also, are you satisfied that the WasteDataFlow system, as currently designed, will be able to adequately monitor the performance of local authorities against statutory recycling targets, and, if not, what plans does your Government have to improve the system?

[141] **Jane Davidson:** We are monitoring it in exactly the same way as we monitor the landfill allowance scheme. This is on the basis of the quarterly data that are reported. Local authority performance is also monitored by the reporting of performance indicators by the local government data unit, signed off by the Auditor General for Wales. In the context of WasteDataFlow, I am satisfied that it will adequately monitor the performance of local authorities against statutory recycling targets. We know that Cylch is particularly concerned that inaccuracies can occur due to the collection methods employed by certain local authorities and that due to the way the system works at the moment, the amount that is being recycled can be overestimated because local authorities are given the benefit of the doubt. We know that there are certain aspects of WasteDataFlow that will need to be reviewed continually to ensure more accurate reporting. We would also say, however, that we feel that those elements of misreporting will be very small. It is important that we have broad confidence in the mechanism and its use in other parts of the UK.

[142] **Eleanor Burnham:** I have two final questions to do with clarification of guidance, with regard to understanding section 7 of the proposed Measure. Why does the consultation provision set out in section 7 of the proposed Measure differ from the consultation provision set out in section 11? For the benefit of observers, section 11

greu mwy o ganolfannau a chronfeydd ailgylchu, er enghraifft, ac felly darparu mwy o ddewis. Mae'r atebion yn eu dwylo hwy.

Eleanor Burnham: Mae tystiolaeth yn ymwneud â beichiau ychwanegol, gan gynnwys adrodd ar feichiau, ond yr ydym am symud ymlaen. A allwch roi unrhyw wybodaeth bellach i'r pwyllgor ar sut bydd targedau ailgylchu statudol yn cael eu monitro a'u plismona? Hefyd, a ydych yn fodlon bod y system WasteDataFlow, fel y mae wedi'i chynllunio ar hyn o bryd, yn gallu monitro perfformiad awdurdodau lleol yn ddigonol yn erbyn targedau ailgylchu statudol ac, os nad ydych, pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i wella'r system?

Jane Davidson: Yr ydym yn ei monitro yn yr un ffordd yn union ag yr ydym yn monitro'r cynllun lwfans tirlenwi. Mae hyn ar sail y data chwarterol sy'n cael ei adrodd. Mae perfformiad awdurdodau lleol hefyd yn cael ei fonitro drwy'r uned ddata llywodraeth leol yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad, gyda sêl bendith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yng nghyd-destun WasteDataFlow, yr wyf yn fodlon y bydd yn monitro perfformiad awdurdodau lleol yn ddigonol yn erbyn targedau ailgylchu statudol. Gwyddom fod Cylch yn arbennig yn bryderus am y gwallau a all godi yn sgîl y dulliau casglu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol penodol ac oherwydd y ffordd y mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd, gellir goramcangyfrif y symiau sy'n cael eu hailgylchu oherwydd bod awdurdodau lleol yn cael mantais yr amheuaeth. Gwyddom y bydd angen adolygu'n barhaus agweddu penodol ar WasteDataFlow i sicrhau adrodd mwy cywir. Fodd bynnag, byddem hefyd yn dweud ein bod yn teimlo y bydd yr elfennau hynny o gam-adrodd yn fach iawn. Mae'n bwysig bod gennym hyder cyffredinol yn y mecanwaith a'i ddefnydd mewn rhannau eraill o'r DU.

Eleanor Burnham: Mae gennyf ddau gwestiwn terfynol sy'n ymwneud ag egluro canllawiau, o ran deall adran 7 y Mesur arfaethedig. Pam mae'r ddarpariaeth ymgynghori a nodir yn adran 7 y Mesur arfaethedig yn wahanol i'r ddarpariaeth ymgynghori a nodir yn adran 11? Er budd arsylwyr, mae adran 11 yn cynnwys

contains provision for Welsh Ministers to consult with

[143] 'such persons appearing to them to be representative of the interests of persons liable to be subject to duties under the regulations',

[144] while section 7 does not. Finally, why does section 8 not include provision to consult with local authorities on the development of any guidance on sections 3 to 6?

[145] **Jane Davidson:** Thank you. I think that that is one for Matt; or rather, those are two for Matt.

[146] **Mr Dunstan:** Regarding the provisions as drafted, there is a difference in the approach taken in section 7 and that taken in section 11, and that difference relates to the scope of the provision to which they relate. I will first address the one for waste targets in section 7. As you stated, it includes a requirement for the Welsh Ministers to consult each local authority, in addition to the Environment Agency, as well as the catch-all provision of

[147] 'such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.'

[148] This reflects the fact that the waste target provisions in the previous sections relate to a relatively small number of bodies, as in only local authorities. In contrast, the provision in section 11 is a somewhat broader framework and, therefore, the landfill provision contains additional obligations to consult with

[149] 'such persons appearing to be representative of the interests of persons liable to duties under the regulations.'

[150] This reflects the wider application of the landfill provisions and would encompass representative bodies of different organisations affected by the provisions.

darpariaeth i Weinidogion Cymru ymgynghori ag

'unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n agored i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau',

ac nid yw adran 7 yn gwneud hynny. Yn olaf, pam nad yw adran 8 yn cynnwys darpariaeth i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar ddatblygiad unrhyw ganllawiau yn adran 3 i 6?

Jane Davidson: Diolch. Credaf mai cwestiwn i Matt yw hwn, neu'n hytrach, dau gwestiwn i Matt.

Mr Dunstan: O ran y darpariaethau fel y maent wedi'u drafftio, mae gwahaniaeth yn y dull a ddefnyddir yn adran 7 a'r un a ddefnyddir yn adran 11, ac mae'r gwahaniaeth hwnnw'n ymwneud â chwmpas y ddarpariaeth y maent yn ymwneud â hwy. Yn gyntaf yr wyf am drafod yr un ar gyfer targedau gwastraff yn adran 7. Fel y dywedaso, mae'n cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol, yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd, ynghyd â darpariaeth dal popeth

'unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol'

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y darpariaethau targed gwastraff yn yr adrannau blaenorol yn ymwneud â nifer cymharol fach o gyrff, sef awdurdodau lleol yn unig. Ar y llaw arall, mae'r ddarpariaeth yn adran 11 yn fframwaith ychydig yn ehangach ac, felly, mae'r ddarpariaeth tirlenwi yn cynnwys rhwymedigaethau ychwanegol i ymgynghori ag

'unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n agored i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau.'

Mae hyn yn adlewyrchu cymhwysiad ehangach y darpariaethau tirlenwi a byddai'n cynnwys cyrff cynrychiadol o wahanol sefydliadau y mae'r darpariaethau yn effeithio arnynt.

[151] **Eleanor Burnham:** How about the fact that section 8 does not include a provision to consult with local authorities on the development of any guidance on sections 3 to 6?

Eleanor Burnham: Beth am y ffaith nad yw adran 8 yn cynnwys darpariaeth i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar ddatblygu unrhyw ganllawiau ar adrannau 3 i 6?

[152] **Mr Dunstan:** There is no provision included on that.

Mr Dunstan: Nid oes darpariaeth wedi'i chynnwys ar hynny.

[153] **Eleanor Burnham:** My question is: why not?

Eleanor Burnham: Fy nghwestiwn i yw: pam hynny?

Jane Davidson: I will be consulting on any guidance issued under the proposed Measure anyway and, therefore, a specific provision to require that is not needed. However, if the committee wanted to see it, that would not be a problem at all for us. We always consult on guidance, as you know, so, in a sense, I suppose that that element is taken as read. However, if you want to write that in, that would not be a problem.

Jane Davidson: Byddaf yn ymgynghori ar unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd o dan y Mesur arfaethedig beth bynnag ac, felly, nid oes angen darpariaeth benodol i wneud hynny'n ofynnol. Fodd bynnag, pe bai'r pwyllgor am ei gweld, ni fyddai hynny'n broblem o gwbl i ni. Yr ydym bob tro'n ymgynghori ar ganllawiau, fel y gwyddoch, felly, i bob diben, mae'n debyg y dylech ystyried yr elfen honno fel y'i darllenir. Fodd bynnag, os ydych am gynnwys hynny, ni fyddai hynny'n broblem.

[154] **Jonathan Morgan:** There is no legal requirement to consult on guidance, is there? It just happens as a matter of course.

Jonathan Morgan: Nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ar ganllawiau, onid oes? Mae'n digwydd yn naturiol.

[155] **Jane Davidson:** There is no legal requirement to consult on anything other than statutory guidance. However, as an Assembly Government, we consult on all guidance.

Jane Davidson: Nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ar unrhyw beth ar wahân i ganllawiau statudol. Fodd bynnag, fel Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn ymgynghori ar bob canllaw.

[156] **Jenny Randerson:** Thank you for those questions, Eleanor. We will move on now as swiftly as possible to Jonathan, who has questions on sections 9 to 11 on landfill bans.

Jenny Randerson: Diolch am eich cwestiynau, Eleanor. Yr ydym am symud ymlaen cyn gynted â phosibl at adrannau 9 i 11 ar wahardd gollwng gwastraff ar safle tirlenwi.

[157] **Jonathan Morgan:** Minister, since you gave evidence on 11 March, the Government, jointly with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, has published a consultation on the introduction of restrictions on the landfilling of certain waste. Can you update the committee on the items that are in the consultation and how they relate to the proposed Measure?

Jonathan Morgan: Weinidog, ers i chi roi tystiolaeth at 11 Mawrth, mae'r Llywodraeth, ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar gyflwyno cyfyngiadau ar dirlenwi gwastraff penodol. A allwch roi'r diweddaraf i'r pwyllgor ar yr eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad a sut maent yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig?

[158] **Jane Davidson:** Yes. It is a joint consultation. It started on 18 March, and it will close on 10 June, and it includes an

Jane Davidson: Gallaf. Mae'n ymgynghoriad ar y cyd. Dechreuodd ar 18 Mawrth, a bydd yn dod i ben ar 10 Mehefin,

impact assessment. The feasibility study carried out by WRAP—the Waste Resources Action Programme—will be published alongside the consultation. Any proposal to restrict or ban the deposit of specified types of waste in landfill in Wales brought forward under our proposed Measure will be informed by the outcomes of that consultation. So, decisions will be taken in the light of the outcome of that consultation.

ac mae'n cynnwys asesiad effaith. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan WRAP—Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau—yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Bydd unrhyw gynnis i gyfyngu ar neu wahardd gwaredu mathau penodol o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru a gyflwynir o dan ein Mesur arfaethedig yn cael ei hysbysu gan ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Felly, bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yng ngoleuni canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

[159] **Jonathan Morgan:** Thank you. The evidence from the Environment Agency refers to landfill restrictions having a place within a wider suite of interventions. It states that that wider suite of interventions may include the consideration of sorting requirements for producers, stimulating the provision of recycling services for businesses or improving markets for quality recyclates. What consideration has the Government given to other interventions that might be introduced? Do you concur with the Environment Agency's evidence?

Jonathan Morgan: Diolch. Mae'r dystiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyfeirio at roi lle i gyfyngiadau ar dirlenwi o fewn cyfres ehangach o ymyriadau. Mae'n nodi y gall y gyfres ehangach o ymyriadau gynnwys ystyried gofynion didoli ar gyfer cynhyrchwyr, sbarduno darpariaeth gwasanaethau ailgylchu ar gyfer busnesau neu wella marchnadoedd ar gyfer deunydd eildro o ansawdd. Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth wedi'i rhoi i ymyriadau eraill y gellid eu cyflwyno? A ydych yn cytuno gyda thystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd?

[160] **Jane Davidson:** Yes, I strongly concur with the Environment Agency evidence. It may be useful to reaffirm that, for example, the capital funding for anaerobic digestion plants to take food waste is already in place. That is a complementary set of facilities to landfill restrictions. The sector plans that I referred to at the beginning, which are being developed as part of the waste strategy, will be very important here. In particular, the collection infrastructure and market sector plan will ensure that the landfill bans are part of a rounded package of policy measures. The WRAP report on landfill has suggested that the ban will be more effective with the requirement to sort waste into particular materials. WRAP also identified that there would be benefits from introducing bans or restrictions by themselves and that banning certain materials might, in practice, lead to better source separation of waste. So, a potential duty or requirement to sort is something that we would need to consider in more detail before we would be in a position to introduce any legislative proposals. It is something that we are very keen to consider.

Jane Davidson: Ydwyf, yr wyf yn cytuno'n llwyr â thystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd. Gallai fod yn ddefnyddiol ailadrodd, er enghraifft, bod y cyllid cyfalaf i safleoedd treulio anaerobig i gymryd gwastraff bwyd eisoes yn eu lle. Mae honno'n gyfres gyflenwol o gyfleusterau i gyfyngiadau tirlenwi. Bydd y cynlluniau sector y cyfeiriais atynt ar y dechrau, sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r strategaeth wastraff, yn bwysig iawn yma. Yn benodol, bydd y seilwaith casglu a'r cynllun sector marchnad yn sicrhau bod y gwaharddiadau ar dirlenwi yn rhan o becyn cyfan o fesurau polisi. Mae adroddiad WRAP ar dirlenwi wedi awgrymu y bydd y gwaharddiad yn fwy effeithiol gyda'r gofyniad i ddioli gwastraff i ddeunyddiau penodol. Nododd WRAP hefyd y byddai manteision yn sgîl cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar eu liwt eu hunain ac y gallai gwahardd deunyddiau penodol, yn ymarferol, arwain at wahanu gwastraff yn well yn y lle cyntaf. Felly, mae dyletswydd neu ofyniad posibl i ddioli yn rhywbeth y byddai angen i ni ei ystyried yn fanylach cyn y byddem mewn sefyllfa i gyflwyno unrhyw gynigion deddfwriaethol.

Mae'n rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i'w ystyried.

[161] **Jonathan Morgan:** In evidence, a number of witnesses said that, when the provision of landfill bans for certain waste materials is considered alongside the provisions in relation to statutory waste targets, we may not have sufficient infrastructure to deal with the resulting increased amounts of recycle. What consideration is now being given to that, alongside the sector plans? If you mentioned this earlier, forgive me, but have you said when those plans will be produced?

Jonathan Morgan: Mewn tystiolaeth, dywedodd nifer o dystion, pan ystyrir darpariaeth gwaharddiadau ar dirilenwi ar gyfer deunyddiau gwastraff penodol ochr yn ochr â'r darpariaethau mewn perthynas â thargedau gwastraff statudol, efallai nad oes gennym seilwaith digonol i ymdrin â'r cynnydd mewn deunydd eildro yn sgîl hynny. Pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i hynny, ochr yn ochr â chynlluniau'r sectorau? Os ydych wedi crybwyll hyn yn gynharach, mae'n ddrwg gen i, ond a ydych wedi dweud pryd y bydd y cynlluniau hynny'n cael eu llunio?

11.20 a.m.

[162] **Jane Davidson:** Yes, but I will put it on the record for the committee now. We will consult on the first part of the municipal sector plan between June and September 2010; we will consult on the collection infrastructure and markets sector plan from December 2010 to March 2011, with a final version being produced at the end of September 2011; we will consult on the construction and demolition sector plan from the end of September to the end of December 2010, with the final version in March 2011; and we will consult on the retail, wholesale, food manufacture and hospitality sector plan from March 2011 to the end of June 2011, with the final version at the end of September 2011. So, my intention is to launch each of the consultations, or, in two cases, the final outcomes of those sector plans, which will be agreed by Welsh Ministers in the future. Three further sector plans will be developed in 2011: the interim remaining commercial and industrial plan, which will run from March 2011 to the end of June, with a final version in September; the public sector plan for 2011-12; and agriculture for 2011-12. I am confident that the sector plans will deliver an increase in infrastructure, and we have growing evidence that there is spare capacity in recycling and reprocessing facilities in Wales that could accommodate much of the extra material that would be banned or restricted from landfill. The sector plans will be a gap analysis. We have already demonstrated a gap, for example, as I said earlier, in plastic bottle sorting, and we were

Jane Davidson: Do, ond yr wyf am nodi hynny ar gofnod i'r pwyllgor yn awr. Byddwn yn ymgynghori ar ran gyntaf cynllun y sector trefol rhwng Mehefin a Medi 2010; byddwn yn ymgynghori ar y seilwaith casglu a chynllun y sector marchnad rhwng Rhagfyr 2010 a Mawrth 2011, gyda fersiwn derfynol yn cael ei lunio ar ddiwedd Medi 2011; byddwn yn ymgynghori ar gynllun y sector adeiladu a dymchwel o ddiwedd Medi tan ddiwedd Rhagfyr 2010, gyda'r fersiwn derfynol ym Mawrth 2011; a byddwn yn ymgynghori ar gynllun y sector manwerthu, cyfanwerthu, gweithgynhyrchu bwyd a lletygarwch o Fawrth 2011 tan ddiwedd Mehefin 2011, gyda'r fersiwn derfynol ar ddiwedd Medi 2011. Felly, fy mwriad yw lansio pob ymgynghoriad, neu, mewn dau achos, canlyniadau terfynol cynlluniau'r sectorau hynny, a bydd Gweinidogion Cymru yn cytuno arnynt yn y dyfodol. Bydd tri chynllun sector pellach yn cael eu datblygu yn 2011: y cynllun masnachol a diwydiannol dros dro sydd ar ôl, a fydd yn para o Fawrth 2011 i ddiwedd Mehefin, gyda fersiwn derfynol ym mis Medi; cynllun y sector cyhoeddus ar gyfer 2011-12; ac amaethyddiaeth ar gyfer 2011-12. Yr wyf yn hyderus y bydd cynlluniau'r sectorau yn arwain at gynydd mewn seilwaith, ac mae gennym dystiolaeth gynyddol bod gallu dros ben ar gyfer cyfleusterau ailgylchu ac ailbrosesu yng Nghymru a allai ddarparu llawer o'r deunydd ychwanegol a fyddai'n cael eu gwahardd neu eu cyfyngu rhag dirilenwi. Bydd cynlluniau'r sectorau yn

able to open a new facility last week, funded by the Assembly Government and the private sector.

[163] **Jonathan Morgan:** You said that you are confident that the sector plans will address the infrastructure. The CBI took a slightly different view, saying that there was an assumption that the ban on landfill would lead the private sector to respond to newly created demand, but the CBI was not certain that that would happen. Have you assessed what the CBI said to us in evidence? Do you have any response to that?

[164] **Jane Davidson:** That is why the plan looks specifically at markets and infrastructure. We are confident that we can work together in Wales to ensure that, where there are market opportunities, they are adequately supported. That is a key element of our green jobs strategy. I am not suggesting that it is the public sector that will meet these gaps. Waste processing facilities and merchants are usually in the private sector anyway, and there are good opportunities for green jobs in that sector as a result of developing this agenda.

[165] **Jonathan Morgan:** The CBI also mentioned that the planning system ought to be looked at. I wonder whether consideration has been given to any of the other factors that may affect the speed at which waste infrastructure can be developed. The CBI was pretty certain that the planning system ought to be part of that consideration.

[166] **Jane Davidson:** That is why we will be reviewing TAN 21, which is the waste TAN, as part of the waste collection infrastructure and management sector plan.

[167] **Jonathan Morgan:** Finally, we have received evidence that there are no mixed

dadansoddi bylchau. Yr ydym wedi dangos bod bwlch, er enghraifft, fel y dywedais yn gynharach, wrth ddioli poteli plastig, ac yr oeddem yn gallu agor cyfleuster newydd yr wythnos diwethaf, a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r sector preifat.

Jonathan Morgan: Dywedasoeh eich bod yn hyderus y bydd cynlluniau'r sectorau yn mynd i'r afael â'r seilwaith. Yr oedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain o farn ychydig yn wahanol, gan ddweud bod rhagdybiaeth y byddai'r gwaharddiad ar dirlenwi yn achosi'r sector preifat i ymateb i alw a grëwyd o'r newydd, ond nid oedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn sicr y byddai hynny'n digwydd. A ydych wedi asesu'r hyn y dywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wrthym mewn tystiolaeth? A oes gennych unrhyw ymateb i hynny?

Jane Davidson: Dyna pam mae'r cynllun yn edrych yn benodol ar farchnadoedd a seilwaith. Yr ydym yn hyderus y gallwn weithio gyda'n gilydd yng Nghymru i sicrhau, lle mae cyfleoedd yn y farchnad, eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Mae honno'n elfen allweddol o'n strategaeth swyddi gwyrdd. Nid wyf yn awgrymu mai'r sector cyhoeddus fydd yn cau'r bylchau hyn. Mae cyfleusterau a masnachwyr prosesu gwastraff yn y sector preifat fel arfer beth bynnag, ac mae cyfleoedd da ar gyfer swyddi gwyrdd yn y sector hwnnw yn sgîl datblygu'r agenda hon.

Jonathan Morgan: Crybwyllodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain hefyd y dylid edrych ar y system gynllunio. Tybed a oes ystyriaeth wedi'i rhoi i unrhyw un o'r ffactorau eraill a allai effeithio ar y cyflymder y gellir datblygu seilwaith gwastraff. Yr oedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn eithaf sicr y dylai'r system gynllunio fod yn rhan o'r ystyriaeth honno.

Jane Davidson: Dyna pam y byddwn yn adolygu Nodyn Cyngor Technegol 21, sef y Nodyn Cyngor Technegol ar wastraff, fel rhan o'r seilwaith casglu gwastraff a chynllun y sector rheoli.

Jonathan Morgan: Yn olaf, yr ydym wedi derbyn tystiolaeth nad oes cyfleusterau

plastic facilities in Wales, so I wonder whether any thought has been given to landfill bans being phased in differently for different materials, depending on the infrastructure available.

[168] **Jane Davidson:** Yes, there would be a lead-in time for landfill bans to allow the infrastructure to develop. We will be looking at that in the context of the consultation on what would be banned, to consider how we can actively promote the development of infrastructure before such a landfill ban is introduced.

[169] **Jonathan Morgan:** So, presumably, certain landfill bans could be introduced pretty quickly, because we would be confident that the infrastructure would be able to cope with that, but others may take a bit longer.

[170] **Jane Davidson:** That is absolutely right. You have to remember that we do not have an impermeable border with England in this context. Wales does not have a site for hazardous waste, for example—that goes across the border already. At the moment, waste from Cardiff goes to Derby for composting, for example. In north-east Wales, we have mixed waste going to England and coming from England. Transport routes often dictate where waste goes. We would be looking at all those issues as well.

[171] **Jenny Randerson:** Colleagues, we face a bit of a problem, because I am told that the Minister has to leave now. It is very unfortunate, because the committee meeting slot is until 12 p.m., but I understand that the Minister has an appointment that really cannot wait. We have a lot of very important questions—too many, I think, to tie up in written correspondence, because we still have a whole section of the legislation to deal with, as well as further questions on landfill bans and site waste management plans. I suggest that the Minister returns to committee, either next week or the week after. Next week would be preferable, if that fits in with your diary, Minister. I am in the hands of Members on this, but the Minister must go now; we have no choice about that.

plastig cymysg yng Nghymru, felly tybed a oes ystyriaeth wedi'i rhoi i gyflwyno gwaharddiadau ar dirlenwi yn wahanol ar gyfer gwahanol ddeunyddiau, yn dibynnu ar y seilwaith sydd ar gael.

Jane Davidson: Oes, byddai amser o baratoi cyn cyflwyno'r gwaharddiadau ar dirlenwi er mwyn caniatáu i'r seilwaith ddatblygu. Byddwn yn edrych ar hynny yng nghydestun yr ymgynghoriad ar beth fyddai'n cael ei wahardd, i ystyried sut gallwn fynd ati'n frwd i hyrwyddo datblygiad seilwaith cyn cyflwyno gwaharddiad o'r fath ar dirlenwi.

Jonathan Morgan: Felly, yn ôl pob tebyg, gellid cyflwyno gwaharddiadau penodol ar dirlenwi yn eithaf cyflym, oherwydd byddem yn hyderus y byddai'r seilwaith yn gallu ymdopi â hynny, ond gallai eraill gymryd ychydig mwy o amser.

Jane Davidson: Mae hynny'n hollol gywir. Mae'n rhaid i chi gofio nad oes gennym ffin anathraidd â Lloegr yn y cyd-destun hwn. Nid oes gan Gymru safle ar gyfer gwastraff peryglus, er enghraifft—mae'r gwastraff hwnnw eisoes yn croesi'r ffin. Ar hyn o bryd, mae gwastraff o Gaerdydd yn mynd i Derby ar gyfer ei gompostio, er enghraifft. Yng ngogledd-ddwyrain Cymru, mae gwastraff cymysg yn mynd i Loegr ac yn dod o Loegr. Mae llwybrau cludiant yn aml yn penderfynnu ble mae gwastraff yn mynd. Byddem yn edrych ar yr holl faterion hynny hefyd.

Jenny Randerson: Gydweithwyr, yr ydym yn wynebu rhywfaint o broblem, gan i mi glywed bod yn rhaid i'r Gweinidog adael yn awr. Mae hyn yn anffodus iawn, gan fod slot cyfarfod y pwyllgor tan 12 p.m., ond yr wyf yn deall fod gan y Gweinidog apwyntiad na all ddisgwyl. Mae gennym lawer o bwyntiau pwysig iawn—gormod, yn fy marn i, i'w trafod mewn gohebiaeth ysgrifenedig, oherwydd mae gennym adran gyfan o'r ddeddfwriaeth i'w thrafod, ynghyd â chwestiynau pellach ar waharddiadau ar dirlenwi a chynlluniau rheoli gwastraff safle. Yr wyf yn awgrymu bod y Gweinidog yn dychwelyd i'r pwyllgor, naill ai'r wythnos nesaf neu'r wythnos ar ôl hynny. Yr wythnos nesaf fyddai orau, os oes gennych le yn eich dyddiadur, Weinidog. Yr wyf yn nwylo'r Aelodau ar hyn, ond mae'n rhaid i'r

Gweinidog fynd yn awr; nid oes gennym ddewis o ran hynny.

[172] **Jane Davidson:** I have already deferred my next speech by 10 minutes, so if we could quickly finish on the landfill bans now, perhaps we could deal with the issues around site waste management plans in correspondence. If you are dissatisfied with that, I can, of course, come back to committee to talk about those in particular.

Jane Davidson: Yr wyf eisoes wedi gohirio fy araith nesaf am 10 munud, felly os cawn ni orffen yn gyflym ar y gwaharddiadau ar dirlenwi yn awr, efallai y gallem ddelio â materion sy'n ymwneud â chynlluniau rheoli gwastraff safle mewn gohebiaeth. Os nad ydych yn fodlon â hynny, gallaf, wrth gwrs, ddychwelyd i'r pwyllgor i siarad am y rheini'n benodol.

[173] **Jenny Randerson:** Some quite controversial issues were raised on site waste management plans. I am happy to carry on, as long as you are.

Jenny Randerson: Codwyd rhai materion eithaf dadleuol ar gynlluniau rheoli gwastraff safle. Yr wyf yn fodlon parhau, cyhyd â'ch bod chi.

[174] **Jane Davidson:** It would be good if we could at least finish this section, so that we have dealt with three elements of the legislation. I am happy to come back to committee to discuss site waste management plans if you want.

Jane Davidson: Byddai'n syniad da o leiaf gorffen yr adran hon, fel ein bod wedi ymdrin â thair elfen o'r ddeddfwriaeth. Yr wyf yn fodlon dychwelyd i'r pwyllgor i drafod cynlluniau rheoli gwastraff safle os dymunwch.

[175] **Jenny Randerson:** Okay. Christine has the next questions.

Jenny Randerson: Iawn. Mae gan Christine y cwestiynau nesaf.

[176] **Christine Chapman:** A number of witnesses have raised concerns about cross-border issues if a landfill ban were to be introduced in Wales before being introduced in England. Have you had any discussions with your colleagues in the Department for Environment, Food and Rural Affairs on this issue?

Christine Chapman: Mae nifer o dystion wedi mynegi pryderon am faterion trawsffiniol pe bai gwaharddiad ar dirlenwi yn cael ei gyflwyno yng Nghymru cyn ei gyflwyno yn Lloegr. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â'ch cydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y mater hwn?

[177] **Jane Davidson:** Yes.

Jane Davidson: Do.

[178] **Christine Chapman:** What responses have you had on that?

Christine Chapman: Pa ymatebion gawsoch chi ynglŷn â hynny?

[179] **Jane Davidson:** Wales has been setting the agenda for the UK on many of these issues around waste. It is interesting to note that, since we started on this agenda, Scotland is looking actively at similar arrangements, and England is looking at reviewing whether or not it will increase its recycling arrangements and consider other mechanisms. If we end up in a situation in which we have the same landfill bans in England and Wales, then that would be an acceptable outcome, which is why we have gone for joint consultation. However, we also

Jane Davidson: Mae Cymru wedi bod yn gosod yr agenda ar gyfer y DU ar lawer o'r materion hyn sy'n ymwneud â gwastraff. Mae'n ddiddorol sylwi, ers i ni ddechrau ar yr agenda hon, bod yr Alban yn edrych yn frwd ar drefniadau tebyg, a Lloegr yn edrych ar adolygu a fydd yn cynyddu ei threfniadau ailgylchu ac ystyried mecanweithiau eraill ai peidio. Os ydym yn diweddu mewn sefyllfa y mae gennym yr un gwaharddiadau ar dirlenwi yng Nghymru a Lloegr, yna byddai hynny'n ganlyniad derbyniol, a dyna pam ein bod wedi dewis ymgynghori ar y cyd. Fodd

want to fulfil our key sustainable development obligations and also deliver landfill bans that are appropriate in Wales. We will continue the dialogue with officials and others in England on that.

[180] **Christine Chapman:** So, following the joint review, if there is no consensus with England and Wales, you will continue anyway.

[181] **Jane Davidson:** The important thing from our perspective, since waste is a devolved issue, and since the proposed Measure gives us an opportunity to take the appropriate action for Wales, is that we would then bring forward proposals about what would be banned in Wales. Anything that is banned for landfill in Wales will be banned for everyone.

[182] **Christine Chapman:** Do you have any concerns that a difference of approach in England and Wales could lead to outcomes such as waste tourism, illegal stockpiling and fly-tipping?

[183] **Jane Davidson:** I certainly do not accept the phrase 'waste tourism', which debases tourism, particularly in a country such as ours that is so strong in its natural assets. There are three elements here. If illegal stockpiling or illegal waste delivery occurred, we would expect the Environment Agency to take the appropriate enforcement action under its existing powers. None of us likes fly-tipping, but it has been decreasing, despite the increasing cost of landfilling waste, which is caused by the reduction in the availability of landfill and the implementation of the landfill tax. They have been highly effective mechanisms. The number of recorded fly-tipping incidents in Wales decreased between 2007-08 and 2009, and work carried out by the Green Alliance for DEFRA on landfill bans implemented in other countries stated that illegal disposal of banned waste was not cited as a significant problem. That is because it is the cowboys whom we want to address, and we can do that through enforcement.

bynag, yr ydym hefyd am gyflawni ein hymrwymiaidau datblygu cynaliadwy allweddol a hefyd gweithredu gwaharddiadau ar dirlenwi sy'n briodol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i drafod â swyddogion ac eraill yn Lloegr ar hynny.

Christine Chapman: Felly, yn dilyn yr adolygiad ar y cyd, os nad oes consensws gyda Chymru a Lloegr, byddwch yn parhau beth bynnag.

Jane Davidson: Y peth pwysig o'n safbwynt ni, gan fod gwastraff yn fater datganoledig, a chan fod y Mesur arfaethedig yn rhoi cyfle i ni gymryd y camau gweithredu priodol yng Nghymru, yw y byddem wedyn yn cyflwyno cynigion am yr hyn a fyddai'n cael ei wahardd yng Nghymru. Byddai unrhyw beth sy'n cael ei wahardd rhag cael ei dirlenwi yng Nghymru yn cael ei wahardd i bawb.

Christine Chapman: A oes gennych unrhyw bryderon y gallai gwahanol dulliau yng Nghymru a Lloegr arwain at ganlyniadau fel twristiaeth wastraff, pentyrru a thipio anghyfreithlon?

Jane Davidson: Nid wyf yn sicr yn derbyn yr ymadrodd 'twristiaeth wastraff', sy'n diraddio twristiaeth, yn enwedig mewn gwlad fel ein gwlad ni sydd mor gadarn yn ei hasedau naturiol. Mae tair elfen yma. Os yw pentyrru anghyfreithlon neu ddarparu gwastraff anghyfreithlon yn digwydd, byddem yn disgwyl i Asiantaeth yr Amgylchedd gymryd y camau gorfodi priodol o dan ei phwerau cyfredol. Nid oes unrhyw un yn hoffi tipio anghyfreithlon, ond mae llai o hyn wedi bod yn digwydd, er y gost gynyddol o dirlenwi gwastraff, a achosir gan ostyngiad yn nifer y safleoedd tirlenwi sydd ar gael a'r dreth tirlenwi yn cael ei gweithredu. Maent wedi bod yn feganweithiau effeithiol iawn. Gostyngodd nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yng Nghymru rhwng 2007-08 a 2009, a nododd gwaith a gyflawnwyd gan y Green Alliance ar gyfer DEFRA ar waharddiadau tirlenwi a weithredwyd mewn gwledydd eraill nad oedd gwaredu wastraff wedi'i wahardd yn anghyfreithlon yn cael ei ystyried yn broblem fawr. Mae hynny oherwydd ein bod am fynd i'r afael â'r cowbois, a gallwn wneud hynny drwy

11.30 a.m.

orfodaeth.

[184] **Christine Chapman:** You have mentioned already the movement of waste between England and Wales. Have you undertaken any assessment of the number of local authorities in Wales that have waste contracts with English companies, or vice versa, and the impact that the introduction of a landfill ban in only one country could have on those contracts?

Christine Chapman: Yr ydych eisoes wedi crybwyll symud gwastraff rhwng Cymru a Lloegr. A ydych wedi cynnal unrhyw asesiad o nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chontractau gwastraff gyda chwmnïau o Loegr, neu fel arall, a'r effaith y gallai cyflwyno gwaharddiad ar dirlenwi mewn un wlad yn unig ei chael ar y contractau hynny?

[185] **Jane Davidson:** A requirement to collect and recycle target materials separately will be placed on local authorities by regulations made under the waste targets component of the proposed Measure. Local authorities would therefore need to ensure that target materials are diverted from landfill, whatever the nature of their contracts, which would ensure that local authorities make their full contribution. We would not expect any local authority to enter into a contract with a landfill operator in England that would compromise its obligation to achieve targets set by the Government in Wales.

Jane Davidson: Bydd gofyniad i gasglu ac ailgylchu deunyddiau a dargedir ar wahân yn cael ei roi ar awdurdodau lleol drwy reoliadau a wnaed o dan elfen targedau gwastraff y Mesur arfaethedig. Felly byddai angen i awdurdodau lleol sicrhau nad yw deunyddiau a dargedir yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi, beth bynnag yw natur eu contractau, a fyddai'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud eu cyfraniadau llawn. Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw awdurdod lleol arwyddo contract gyda gweithredydd safle tirlenwi yn Lloegr a fyddai'n cyfaddawdu ei rwymedigaeth i gyflawni targedau a osodwyd gan y Llywodraeth yng Nghymru.

[186] **Christine Chapman:** This is my final question. What action are you taking to develop markets for the increased levels of recyclates that may arise as a result of the proposed Measure? What assessment have you made of the impact that increased levels of recyclates may have on the price that local authorities currently receive for their recyclable materials?

Christine Chapman: Dyma fy nghwestiwn olaf. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer y lefelau cynyddol o ddeunyddiau eildro a allai godi yn sgîl y Mesur arfaethedig? Pa asesiadau yr ydych wedi'u gwneud o'r effaith y gall lefelau cynyddol o ddeunyddiau eildro ei chael ar y pris y mae awdurdodau lleol yn ei dderbyn ar hyn o bryd am eu deunyddiau eildro?

[187] **Jane Davidson:** It is worth saying that recyclates are global commodities. Wales will not be affected. Given the amount that we produce in this context, Wales will not affect the prices of global commodities. However—I have said this to the Sustainability Committee previously—if paper was collected separately, and not in a co-mingled collection, one reprocessor in north Wales, namely Shotton paper mill, and another in south Wales, Excel, which makes newspaper-based insulation, could take all the paper that Welsh local authorities recycle and, if there were more, they would probably

Jane Davidson: Mae'n werth dweud bod deunyddiau eildro yn nwyddau byd-eang. Ni fydd hyn yn effeithio ar Gymru. O ystyried y swm yr ydym yn ei gynhyrchu yn y cyddestun hwn, ni fydd Cymru yn effeithio ar brisiau nwyddau byd-eang. Fodd bynnag—yr wyf wedi dweud hyn wrth y Pwyllgor Cynaliadwyedd eisoes—pe bai papur yn cael ei gasglu ar wahân, ac nid mewn casgliad cymysg, gallai ailbrosesydd yng ngogledd Cymru, sef melin bapur Shotton, ac un arall yn ne Cymru, Excel, sy'n inswleiddio gyda phapur newydd, gymryd yr holl bapur y mae awdurdodau lleol Cymru yn ei ailgylchu a,

be able to use more.

phe bai mwy, byddent yn gallu defnyddio mwy yn ôl pob tebyg.

[188] In response to the point that there may be some materials that we could just remove from landfill, we know that there are some materials that could be reprocessed and turned into recyclates now. With regard to plastic bottles, the new facilities that have opened in north and south Wales have made a major intervention in that regard. We are funding the Waste Resources Action Programme in relation to developing markets, and, as I said a number of times earlier, we have our waste collection infrastructure and management sector plan, which will be coming out for consultation shortly.

Mewn ymateb i'r pwynt y gallai fod rhai deunyddiau y gallem eu symud o safleoedd tirlenwi, gwyddom fod rhai deunyddiau y gellid eu hailbroseu a'u troi yn ddeunyddiau eildro yn awr. O ran poteli plastig, mae'r cyfleusterau newydd sydd wedi agor yng ngogledd a de Cymru wedi gwneud ymyriad pwysig yn hynny o beth. Yr ydym yn ariannu Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau mewn perthynas â marchnadoedd sy'n datblygu, ac, fel y dywedais sawl tro yn gynharach, mae gennym ein seilwaith casglu gwastraff a chynllun y sector rheoli, a fydd yn destun ymgynghori yn fuan.

[189] **Bethan Jenkins:** You said in your evidence to the committee on 11 March that the Environment Agency would most likely be the organisation that would take on responsibility for monitoring and enforcing any landfill ban. What discussions have you had with the Environment Agency about its capacity to take on a monitoring and enforcement role in relation to any future landfill bans?

Bethan Jenkins: Dywedasoeh yn eich tystiolaeth i'r pwyllgor ar 11 Mawrth mai Asiantaeth yr Amgylchedd fyddai'r sefydliad mwyaf tebygol o gymryd cyfrifoldeb am fonitro a gorfodi'r gwaharddiad ar dirlenwi. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ag Asiantaeth yr Amgylchedd am ei gallu i ymgymryd â rôl fonitro a gorfodi mewn perthynas ag unrhyw waharddiadau ar dirlenwi yn y dyfodol?

[190] **Jane Davidson:** The main work in forming the proposal was the analysis conducted by WRAP and Eunomia, the independent consultancy, on landfill bans. The Environment Agency has been a participating member of that project's steering group. It has been interviewed as part of the project on its monitoring and enforcement roles, but the exact regulatory role will depend on the type of ban or restriction that is introduced.

Jane Davidson: Y prif waith wrth lunio'r cynnig oedd y dadansoddiad a gynhaliwyd gan WRAP ac Eunomia, yr ymgynghoriaeth annibynnol, ar waharddiadau ar dirlenwi. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn aelod sy'n cymryd rhan yng ngrŵp llywio'r prosiect hwnnw. Mae wedi'i chyfweld fel rhan o'r prosiect ar ei rolau monitro a gorfodi, ond bydd yr union rôl o reoleiddio yn dibynnu ar y math o waharddiad neu gyfyngiad a gyflwynir.

[191] **Bethan Jenkins:** Have you given any consideration to the issue of who will be ultimately responsible if individuals place banned items in residual waste bags? How will that be enforced? We have received evidence from the WLGA that states that local authorities should not be punished, so to speak, if people put banned items into residual waste.

Bethan Jenkins: A ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r mater o bwy a fydd yn gyfrifol yn y pen draw os yw unigolion yn rhoi eitemau sydd wedi'u gwahardd mewn bagiau gwastraff gweddilliol? Sut bydd hynny'n cael ei orfodi? Yr ydym wedi derbyn tystiolaeth gan CLILC sy'n nodi na ddylid cosbi awdurdodau lleol, fel pe bai, os yw pobl yn rhoi eitemau sydd wedi'u gwahardd mewn gwastraff gweddilliol.

[192] **Jane Davidson:** We will have to look to the consultation responses. Since we started on the basis that we are looking at

Jane Davidson: Bydd yn rhaid i ni edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Gan ein bod wedi dechrau ar y sail ein bod yn edrych ar

waste minimisation and are looking for a use for practically all of the waste that comes through the municipal waste stream—and we need to be very transparent about that—in the longer term we would not expect there to be items in the residual waste stream, because that stream needs to be a small element of the overall waste delivery when we have recycling targets of 70 per cent, for example.

[193] **Bethan Jenkins:** This is my final question. Have you given any consideration to whether an individual, company or local authority is likely to be penalised for landfilling banned waste if alternative waste treatment is not accessible to them, or if the infrastructure is not available in their locality to transfer those goods?

[194] **Jane Davidson:** That is an interesting question. I said earlier that there is no hazardous waste landfill site in Wales, but that has not resulted in companies or local authorities being forced to landfill waste because of a lack of available infrastructure. The market has responded and provided a solution that was accessible enough, across the English border. That is why the market's infrastructure plan is so critical in taking this agenda forward and in providing the green opportunities for jobs and facilities.

[195] **Bethan Jenkins:** Sorry, but I have just realised that that was not my final question. My final question is this: given that the Environment Agency has yet to gain any civil sanction powers for other parts of the environmental permitting regime, do you think that seeking the powers to introduce civil sanctions under sections 9 and 10 of the proposed Measure is appropriate at this stage?

[196] **Jane Davidson:** Yes, I do. Civil sanctions in this context are a good alternative to criminal sanctions, because giving these alternatives to an enforcement authority allows it to make a more proportionate and flexible response to regulatory non-compliance. Otherwise, it will be between prosecuting, cautioning or taking no action. There will be a lead-in time for the bans, which means that the civil sanctions are

leihau gwastraff ac yn chwilio am ddefnydd i'r holl wastraff fwy neu lai sy'n dod drwy'r ffrwd gwastraff trefol—ac mae angen i ni fod yn dryloyw iawn ynglŷn â hynny—yn y tymor hwy ni fyddem yn disgwyl eitemau yn y ffrwd gwastraff gweddilliol, oherwydd mae angen i'r ffrwd honno fod yn elfen fach o'r ddarpariaeth wastraff gyffredinol pan fydd gennym dargedau ailgylchu o 70 y cant, er enghraifft.

Bethan Jenkins: Dyma fy nghwestiwn olaf. A ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i a yw unrhyw unigolyn, cwmni neu awdurdod lleol yn debygol o gael eu cosbi am dirlenwi gwastraff sydd wedi'i wahardd os nad oes triniaeth wastraff arall ar gael iddynt, neu os nad yw'r seilwaith ar gael yn eu hardal i drosglwyddo'r nwyddau hynny?

Jane Davidson: Mae hwnnw'n gwestiwn diddorol. Dywedais yn gynharach nad oes safle tirlenwi gwastraff peryglus yng Nghymru, ond nid yw hynny wedi arwain at orfodi cwmnïau neu awdurdodau lleol i dirlenwi gwastraff oherwydd nad oes seilwaith ar gael. Mae'r farchnad wedi ymateb ac wedi darparu ateb a oedd yn ddigon hygyrch, ar draws y ffin yn Lloegr. Dyna pan mae cynllun seilwaith y farchnad mor hollbwysig wrth ddatblygu'r agenda hon ac wrth ddarparu'r cyfleoedd gwyrdd ar gyfer swyddi a chyfleusterau.

Bethan Jenkins: Mae'n ddrwg gen i, ond yr wyf newydd sylweddoli nad dyna oedd fy nghwestiwn olaf. Dyma fy nghwestiwn olaf: o ystyried nad oes gan Asiantaeth yr Amgylchedd unrhyw bwerau sancsiynau sifil eto ar gyfer rhannau eraill o'r gyfundrefn ganiatáu amgylcheddol, a ydych yn credu fod ceisio'r pwerau i gyflwyno sancsiynau sifil o dan adrannau 9 a 10 y Mesur arfaethedig yn briodol ar hyn o bryd?

Jane Davidson: Ydw, yr ydwyf. Mae sancsiynau sifil yn y cyd-destun hwn yn opsiwn arall da i sancsiynau troseddol, oherwydd bod rhoi'r opsiynau eraill hyn i awdurdod gorfodi yn caniatáu iddo ymateb yn fwy cymesur a hyblyg i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Fel arall, bydd rhwng erlyn, rhybuddio neu beidio â gweithredu o gwbl. Bydd amser paratoi cyn y gwaharddiadau, sy'n golygu bod y

also appropriate in that context.

[197] **Jenny Randerson:** We are grateful to you, Minister, for staying a little longer to finish that section of questions. Given that we just have questions left on the site waste management plans, I suggest to colleagues that a sensible solution would be for the clerks to write to the Minister with our questions by the end of today. If we could have your replies by next Wednesday, Minister, we could look at them and ask you to come back if we want to raise any further issues. It is a section in which conflicting ideas and approaches have emerged from witnesses, and so there are some things that we want to test. However, we will come back to you for further evidence in person if necessary, although we will seek to avoid that through the use of written correspondence. Is that all right, Minister? Are committee members content with that? I see that you are. Thank you very much.

[198] I am sure that you do not want us to raise any other issues now because of time pressures, but if you want to raise anything else that has not come up in our questions, feel free to do so. We will send you the Record in the usual way.

[199] **Jane Davidson:** I will lay out why we are going down the site waste management plan route in my response to the questions that you will send directly. We have already given you an assurance that Nia will come back to you on whether the legislation as drafted would allow the endowment that Brian Gibbons talked about.

[200] **Brian Gibbons:** Before we move on to the next item, I just want to say that I am happy with the questions as drafted, but I would be interested in knowing the difference between what is mandated and what is promissory. In other words, the legislation as drafted does not require a competent person scheme, but would it prevent that from happening? Would it also prevent the use of these flexible waste transfers? There is no

sancsiynau sifil hefyd yn briodol yn y cyddestun hwnnw.

Jenny Randerson: Yr ydym yn ddiolchgar i chi, Weinidog, am aros ychydig yn hwy i orffen yr adran honno o gwestiynau. O ystyried mai dim ond gwestiynau ar gynlluniau rheoli gwastraff safle sydd gennym yn weddill yn unig, yr wyf yn awgrymu i gydweithwyr mai ateb doeth fyddai i'r clerod ysgrifennu at y Gweinidog gyda'ch cwestiynau erbyn diwedd heddiw. Pe baem yn gallu cael eich atebion erbyn dydd Mercher nesaf, Weinidog, gallem edrych arnynt a gofyn i chi ddychwelyd os ydym am drafod unrhyw faterion pellach. Mae'n adran lle mae syniadau a dulliau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd wedi codi gan dystion, ac felly mae ambell i beth yr ydym am eu profi. Fodd bynnag, byddwn yn dod yn ôl atoch am dystiolaeth bellach bersonol os oes angen, er y byddwn yn ceisio osgoi hynny drwy ddefnyddio gohebiaeth ysgrifenedig. A yw hynny'n iawn, Weinidog? A yw aelodau'r pwyllgor yn fodlon â hynny? Gwelaf eich bod chi. Diolch yn fawr.

Yr wyf yn sicr nad ydych am i ni godi unrhyw faterion eraill yn awr oherwydd cyfyngiadau amser, ond os ydych am godi unrhyw beth arall nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein cwestiynau, mae croeso i chi wneud hynny. Byddwn yn anfon y Cofnod atoch yn y ffordd arferol.

Jane Davidson: Yr wyf am egluro pam ein bod yn mynd i drafod y cynllun rheoli gwastraff safle yn fy ymateb i'r cwestiynau y byddwch yn eu hanfon yn uniongyrchol. Yr ydym eisoes wedi rhoi sicrwydd i chi y bydd Nia yn dod yn ôl atoch ynglŷn ag a fyddai'r ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i drafftio yn caniatáu'r gwaddol y siaradodd Brian Gibbons amdano.

Brian Gibbons: Cyn i ni symud ymlaen at yr eitem nesaf, yr wyf am ddweud fy mod yn hapus â'r cwestiynau fel y maent wedi'u drafftio, ond byddwn â diddordeb i wybod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n orfodol a'r hyn sy'n addewidiol. Mewn geiriau eraill, nid yw'r ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i drafftio yn gofyn am gynllun person cymwys, ond a fyddai'n atal hynny rhag digwydd? A fyddai hefyd yn atal y defnydd o'r trosglwyddiadau

element of compulsion, but, conversely, would it prevent it from happening if that was thought to be good practice?

gwastraff hyblyg hyn? Nid oes elfen o orfodaeth, ond, ar y llaw arall, a fyddai'n atal hynny rhag digwydd pe ystyrir bod hynny'n arfer da?

[201] **Eleanor Burnham:** The question that I wanted to ask the Minister followed from Bethan's question about civil sanction powers. Will those powers include putting cameras in bins to monitor people's waste?

Eleanor Burnham: Yr oedd y cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn yn dilyn cwestiwn Bethan am bwerau sancsiynau sifil. A fydd y pwerau hynny'n cynnwys gosod camerâu mewn biniau i fonitro gwastraff pobl?

11.40 a.m.

[202] **Jenny Randerson:** Is that the 'chip' thing?

Jenny Randerson: Ai dyna'r ddyfais 'sglodyn'?

[203] **Eleanor Burnham:** Yes. It is an important issue because there has been a lot of controversy about what might happen in certain authorities in England—or even what is happening at the moment. That is a very important civil liberty question, as befits a Liberal Democrat to ask.

Eleanor Burnham: Ie. Mae'n fater pwysig gan fod llawer o ddadlau wedi bod ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd mewn awdurdodau penodol yn Lloegr—neu hyd yn oed yr hyn sy'n digwydd yn awr. Mae hynny'n gwestiwn hawliau sifil pwysig, fel sy'n addas i Ddemocrat Rhyddfrydol ei ofyn.

[204] **Bethan Jenkins:** I want to know whether we could have information on the scoping exercise that the Government undertook and on why it did not introduce collaborative targets. It said that it had done an exercise focusing on rural areas versus the Valleys, and I would like to see that because we have not been party to that information.

Bethan Jenkins: Yr wyf am gael gwybod a allem gael gwybodaeth am yr ymarfer cwmpasu y cynhaliodd y Llywodraeth a pham na chyflwynodd dargedau cydweithredol. Dywedodd ei bod wedi cynnal ymarfer yn canolbwyntio ar ardaloedd gwledig o gymharu â'r Cymoedd, a hoffwn weld hynny oherwydd nid ydym wedi derbyn y wybodaeth honno.

[205] **Jenny Randerson:** Yes, that was an interesting point.

Jenny Randerson: Oedd, yr oedd hynny'n bwynt diddorol.

[206] **Eleanor Burnham:** Could I ask one last question, as I may not be here at our next meeting? Collaboration is already under way in north Wales. My understanding is that Flintshire is the lead authority. *[Interruption.]* Was that your question, Brian?

Eleanor Burnham: A gaf fi ofyn un cwestiwn olaf, oherwydd efallai na fyddaf yma yn ein cyfarfod nesaf? Mae cydweithredu eisoes ar waith yng ngogledd Cymru. Yr wyf yn deall mai Sir y Fflint yw'r prif awdurdod *[Ymyriad.]* Ai dyna oedd eich cwestiwn, Brian?

[207] **Brian Gibbons:** There is massive collaboration, which goes back to what Bethan and Jenny said, but each authority is responsible for its own targets, and authorities are deciding that the way to reach our targets is through collaboration, so you are right. The question is whether, in a collaborative exercise, you can pool your target, which seems to be a sensible way to go, but the Minister said that that was not

Brian Gibbons: Mae cydweithredu enfawr, sy'n mynd yn ôl at yr hyn a ddywedodd Bethan a Jenny, ond mae pob awdurdod yn gyfrifol am ei dargedau ei hun, ac mae awdurdodau yn penderfynu mai'r ffordd i gyrraedd ein targedau yw drwy gydweithredu, felly yr ydych yn gywir. Y cwestiwn yw, mewn ymarfer cydweithredol, a allwch gyfuno'ch targed, sy'n ymddangos fel trywydd call i'w ddilyn, ond dywedodd y

possible at the moment.

Gweinidog nad oedd hynny'n bosibl ar hyn o bryd.

[208] **Jenny Randerson:** I wonder how you would disentangle your target from a collaborative target.

Jenny Randerson: Tybed sut byddech yn datod eich targed o darged cydweithredol.

[209] **Eleanor Burnham:** Absolutely, because, in north Wales, there is this lead authority, namely Flintshire, and I happen to know from talking to the leader of Wrexham County Borough Council recently that, in five years' time, no landfill space will be left available in north Wales, so there is an increasing sense of urgency. It requires a fast pace.

Eleanor Burnham: Yn union, oherwydd, yng ngogledd Cymru, mae prif awdurdod, sef Sir y Fflint, ac yr wyf yn digwydd gwybod o siarad gydag arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ddiweddar, na fydd lle ar ôl i dirlenwi yng ngogledd Cymru mewn pum mlynedd, felly mae mwy a mwy o frys. Mae angen gweithredu ar fyrder.

[210] **Jenny Randerson:** I suggest that anyone who wants to ask the Minister further supplementary questions put them in an e-mail to the clerks. Could you do so by 4 p.m.?

Jenny Randerson: Awgrymaf fod unrhyw un sydd am ofyn cwestiynau ychwanegol pellach i'r Gweinidog yn eu hanfon mewn neges e-bost at y clercod. A allwch wneud hynny erbyn 4 p.m.?

[211] **Eleanor Burnham:** Have you made a note of mine?

Eleanor Burnham: A ydych wedi gwneud nodyn o fy nghwestiwn i?

[212] **Jenny Randerson:** Yes, it has all been written down, but I am sure that one or two other issues will come through. I am sorry that we are faced with this situation, but we are making the best of it by seeking written evidence. For clarity, if the Minister provides written evidence that leads to any further questions, if necessary, we will ask her back on 19 May, which is designed to be a day when we look at our emerging themes.

Jenny Randerson: Do, mae wedi'i nodi ar bapur, ond yr wyf yn siŵr bydd un neu ddau o faterion eraill yn codi. Mae'n ddrwg gen i ein bod yn wynebu'r sefyllfa hon, ond yr ydym yn gwneud y gorau ohoni drwy geisio tystiolaeth ysgrifenedig. Er mwyn bod yn glir, os yw'r Gweinidog yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n arwain at unrhyw gwestiynau pellach, os oes angen, byddwn yn ei gwahodd yn ôl ar 19 Mai, sef y diwrnod sydd wedi ei bennu i ni edrych ar ein themâu newydd.

11.43 a.m.

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

[213] **Jenny Randerson:** I move that

Jenny Randerson: Cynigiaf fod

[214] *the committee resolves to exclude the public from its consideration, for item 3 and any future meetings, of the key recommendations of its Stage 1 report on the Proposed Waste (Wales) Measure, in accordance with Standing Order 10.37(vi).*

y pwyllgor yn penderfynu gwahardd y cyhoedd o'i ystyriaeth, ar gyfer eitem 3 ac unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol, o'r argymhellion allweddol o'i adroddiad Cyfnod 1 ar Fesur Gwastraff (Cymru) Arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.37(vi)

[215] Are you all happy with that? I see

A ydych i gyd yn fodlon â hynny? Gwelaf

that you are. We also have the minutes of our previous meeting as a paper to note. Thank you, everyone.

eich bod. Mae gennym hefyd gofnodion ein cyfarfod diwethaf fel papur i'w nodi. Diolch, bawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.43 a.m.
The meeting ended at 11.43 a.m.